

**General
Dental
Council**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon **2020**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Senedd yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984.

Adroddiad blynyddol a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984.

Cyfrifon a gyflwynir i'r Senedd yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Cyfrifon a gyflwynir i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 14 Gorffennaf 2021.

SG/2021/126

HC 396



© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3. Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn **information@gdc-uk.org** neu ffoniwch: **020 7167 6000**

ISBN 978-1-5286-2673-6

CCS0621739042 07/21

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi



Cynnwys

Adran Un: Dadansoddi Perfformiad	6
1. Pwrpas statudol	6
2. Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	7
3. Trosolwg Busnes 2020	10
a) Pwy ydym ni	10
b) Ymrwymiad i gydraddoldeb	12
c) Adolygiad 2020 y cynllun busnes	13
d) Perfformiad addasrwydd i ymarfer	17
e) Perfformiad cofrestru	21
f) Adolygiad ariannol	24
Adran Dau: Adroddiad Atebolrwydd	30
4. Strwythur y cyngor a'i bwyllgorau	30
5. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr	34
6. Datganiad llywodraethu	35
7. Adroddiad taliadau a staff.....	44
8. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig	52
9. Adroddiad yr archwilydd annibynnol	57
Adran Tri: Datganiadau Ariannol	60
10. Cyfrifon	60
11. Nodiadau i'r cyfrifon.....	64
12. Cynghorwyr	88
13. Atodiad	89
a) Dyfarniad ar y Cyfrifon	89



Adran Un: Dadansoddi Perfformiad

1. Pwrpas statudol

Y Cyngor Deityddol Cyffredinol (GDC) yw'r corff statudol yn y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio aelodau'r tîm deityddol. Roedd bron i 114,000 o aelodau ym mis Rhagfyr 2020, yn cynnwys tua 43,000 o ddeityddion a 71,000 o weithwyr gofal deityddol proffesiynol (DCPs). Mae DCPs yn cynnwys nyrsys deityddol, technegwyr deityddol clinigol, hylenyddion deityddol, technegwyr deityddol, therapyddion deityddol a therapyddion orthodontig.

Ein pwrpas:

Ein hamcan cyffredinol, fel y'i nodir yn Neddf Deityddion 1984, yw diogelu'r cyhoedd. Rydym yn cyflawni hyn drwy ddilyn yr amcanion canlynol:

- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir
- hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.

Dylai cleifion a'r cyhoedd fod yn hyderus bod y driniaeth y maent yn ei derbyn yn cael ei rhoi gan weithiwr deityddol hyfforddedig a chymwys sy'n bodloni ein safonau. Lle mae pryderon am ansawdd y gofal neu'r driniaeth, neu am ymddygiad gweithiwr deityddol, byddwn yn ymchwilio ac yn gweithredu lle bo hynny'n briodol.

Cyflawnwn ein pwrpas drwy ddefnyddio ein pwerau statudol i:

- gofrestru dim ond y gweithwyr deityddol hynny sy'n bodloni ein gofynion ar addysg a hyfforddiant, iechyd a chymeriad da. Dim ond gweithwyr sydd wedi cofrestru gyda ni sy'n cael ymarfer deityddiaeth yn y DU
- sicrhau ansawdd y rhaglenni addysg a hyfforddiant deityddol sy'n arwain at gofrestru gyda'r GDC
- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, perfformiad a moeseg y tîm deityddol
- ymchwilio i gwynion yn erbyn gweithwyr deityddol, a lle bo hynny'n briodol, gweithredu drwy ein proses Addasrwydd i Ymarfer (FtP)
- amddiffyn y cyhoedd rhag pobl sy'n cyflawni gwaith deityddol heb fod wedi cofrestru
- ei gwneud yn ofynnol i weithwyr deityddol ddiweddarau eu sgiliau'n rheolaidd drwy ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (CPD).

Yn ogystal, ariannwn y Gwasanaeth Cwynion Deityddol (DCS) sy'n darparu gwasanaeth diduedd am ddim i helpu cleifion a gweithwyr deityddol i ddefnyddio cyfryngu i ddatrys cwynion am ofal deityddol preifat.



2. Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Ar ddechrau 2020, roeddem newydd lansio ein strategaeth gorfforaethol newydd, *Right time, right place, right-touch*, ac am y tro cyntaf, aethom ati i gyhoeddi ein gweithgarwch bwriedig ar gyfer y flwyddyn yn ein Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio 2020. Rhyngddynt, maent yn cyflwyno ein huchelgais ar gyfer y flwyddyn, gan ategu ein prif amcan o ddiogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio gweithwyr deintyddol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom gynnydd da. Cwblhawyd camau olaf ein rhaglen ystadau yn llwyddiannus ar ôl symud rhai swyddogaethau i Birmingham ac agor ein hystafelloedd Gwrandawiadau newydd yn Llundain a chynnal ein hail gynhadledd Moving Upstream ym mis Chwefror. Roedd gwaith ar draws ein holl weithgareddau'n parhau yn ôl y bwriad hefyd.

Fodd bynnag, wrth i ni ddechrau deall arwyddocâd y pandemig COVID-19, gan gynnwys y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud cenedlaethol yn y DU, a'r effaith a gafodd hyn ar ddarparu gwasanaethau deintyddol ledled y DU, newidiodd ein llwyth gwaith, ein cynlluniau a'n blaenoriaethau yn sylweddol.

Ein blaenoriaeth gyntaf oedd diogelu'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau statudol craidd, na ellir eu hatal. Ond roedd gennym ddyletswydd gofal hefyd i'n gweithwyr ac i unigolion a oedd yn mynychu swyddfeydd y GDC, er enghraifft, mewn perthynas â gwrandawiadau. Symudwyd yn gyflym iawn i weithio o bell lle roedd hynny'n bosibl, gyda'r rhan fwyaf o'n staff yn gweithio gartref. Gwnaethom sicrhau hefyd bod ein swyddfeydd yn gwbl ddiogel o ran COVID, fel y gallai gwaith hanfodol a oedd yn dibynnu ar bresenoldeb corfforol barhau.

Ac wrth i ni ymateb i'r pandemig, bu'n rhaid i'r Cyngor ailwerthuso ein cynlluniau ar gyfer 2020 er mwyn ystyried yr effaith yr oedd yn ei chael. Roedd hyn yn golygu bod rhywfaint o waith wedi cyflymu, rhywfaint wedi cael ei atal; ac ychwanegwyd gwaith newydd nad oedd yn y cynllun gwreiddiol.



Dr William Moyes
Cadeirydd



Ian Brack
Prif Weithredwr a Chofrestrydd



Er gwaethaf y blaenoriaethau newidiol hyn, roeddem yn dal i gyflawni llawer o'r hyn yr oeddem wedi bwriadu ei wneud yn wreiddiol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys parhau i brosesu'r holl geisiadau newydd i ymuno â chofrestrîr GDC a sicrhau bod y gweithgarwch addasrwydd i ymarfer yn parhau gydol y pandemig, gan gynnwys cynnal gwrandawiaadau o bell pan nad oedd modd eu cynnal wyneb yn wyneb. Gwnaethom gyflymu'r gwaith o gyflwyno meddalwedd hefyd i gefnogi cydweithredu a gweithio o bell a helpodd i wella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd, symud ein holl weithgarwch ymgysylltu ar-lein, gan gynnwys ein rhaglenni ymgysylltu â myfyrwyr a deintyddion sylfaen, a chwblhau ein hadolygiad o barodrwydd deintyddion i ymarfer, a oedd yn ystyried a oedd disgwyliadau dechreuwr diogel yn briodol ac yn ddealladwy.

Oherwydd y gostyngiad mewn gofal deintyddol rheolaidd, cafodd hyfforddiant ymarferol a phrofiad i fyfyrwyr deintyddol eu heffeithio'n sylweddol. Bu'n rhaid i ni weithio'n agos gyda darparwyr addysg i sicrhau bod myfyrwyr a oedd i fod i gymhwyso yn 2020 yn gallu cwblhau eu blwyddyn olaf o hyfforddiant a chyrraedd y safon ofynnol. Rydym wedi parhau i weithio gyda nhw i ddeall a sicrhau ansawdd y cynlluniau sydd ganddynt ar waith i alluogi myfyrwyr sy'n graddio yn 2021 i gwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant ymarferol ac i ymuno â'r gofrestr fel dechreuwr diogel.

Ochr yn ochr ag ymateb i'r pandemig, bu'n rhaid i ni baratoi ar gyfer diwedd cyfnod pontio ymadael â'r UE hefyd. Roedd hyn yn arbennig o heriol gan nad oedd llawer o'r manylion yn hysbys tan fisoedd olaf 2020. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn 2021 wrth i ni sicrhau bod ein llwybrau at gofrestru rhyngwladol yn diogelu'r cyhoedd yng nghyd-destun rhyngwladol newydd y DU ac yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol.

Fel sy'n digwydd bob blwyddyn, adolygodd y GDC y Ffi Gadw Flynyddol (ARF). Yn 2019, roedd y Cyngor wedi gostwng cyfraddau'r ARF ar gyfer deintyddion a DCPs am gyfnod o dair blynedd a phenderfynodd gynnal y cyfraddau hynny ar y lefelau bwriedig, er gwaethaf yr ansicrwydd mawr iawn ynghylch ein costau a'r risgiau o ran llai o incwm oherwydd y pandemig. Yn fwy diweddar, rydym wedi cyhoeddi cyflwyno cynllun talu ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n talu eu ARF eu hunain i ledaenu'r gost dros y flwyddyn gyda thaliadau Debyd Uniongyrchol chwarterol.

Tua diwedd y flwyddyn, arweiniodd yr heriau a'r newidiadau hyn atom yn adolygu ein Strategaeth Gorrforaethol i sicrhau ei bod yn dal i fod yn berthnasol i'r cyd-destun strategol newidiol. Nodir ein hamcanion craidd yn ein deddfwriaeth - diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd, a chynnal safonau proffesiynol a hyder yn y tîm deintyddol. Yn dilyn yr adolygiad, penderfynodd y Cyngor ddiwygio a symleiddio geiriad ein pum nod strategol, er nad yw eu bwriad wedi newid. Gwnaeth hyn i egluro ein dull gweithredu ac i ddangos sut rydym yn addasu i gyd-destun newydd gofal deintyddol a diogelu'r cyhoedd.

Wrth i ni edrych ymlaen o 2020, mae'n amlwg bod COVID-19 wedi cael effaith ddofn ar gleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â'r proffesiynau. Mae'r effaith honno'n debygol o bara am gyfnod hir. Mae'n debygol y bydd mynediad at wasanaethau yn parhau i fod yn her, a disgwyliwn y bydd y ffordd y caiff gwasanaethau deintyddol eu darparu yn y dyfodol yn newid. Rydym eisoes yn gweld arwyddion o'r newidiadau hyn, gyda'r defnydd o dechnoleg a chyfryngau newydd yn cyflymu gydol y pandemig, yn enwedig o ran darparu deintyddiaeth o bell. Fel y rheoleiddiwr, byddwn yn cefnogi arloesedd sy'n gwella iechyd y geg, yn amodol ar yr angen pennaf i sicrhau diogelwch y cyhoedd.



Rydym yn gobeithio gweld cynnydd yn cael ei wneud hefyd o ran diwygio rheoleiddio ar gyfer y rheoleiddwyr gofal iechyd. Mae digwyddiadau 2020 wedi dangos yn gliriach fyth yr angen am fframwaith cyfreithiol mwy modern a hyblyg i gefnogi rheoleiddio effeithiol. Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad diweddar ar egwyddorion diwygio a byddwn yn annog y Llywodraeth i gyflwyno cynigion manwl ar gyfer moderneiddio deddfwriaeth lywodraethu'r GDC cyn gynted â phosibl.

Gydol y cyfnod hwn o ansicrwydd, rydym wedi gorfod cynllunio ac ymdopi â'r annisgwyl. Mae hyn wedi bod yn heriol ar adegau ac wedi effeithio ar rai meysydd o'n perfformiad gweithredol, fel sydd wedi digwydd i bron pob corff rheoleiddio iechyd. Rydym wedi dysgu o hyn ac yn cymhwyso'r gwersi hynny i sicrhau bod y GDC mewn sefyllfa dda o hyd i fynd i'r afael â'r materion a fydd yn codi yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac ymateb iddynt.

I gloi, hoffem ddiolch i holl aelodau'r Cyngor am eu gwaith a'u cefnogaeth barhaus dros y 12 mis diwethaf a dweud pa mor ddiolchgar ydym i holl staff ac aelodau cyswllt y GDC, ac i'r gweithwyr deintyddol proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio, am eu hymdrechion yn cyflawni cymaint o newid cadarnhaol yn ystod y flwyddyn heriol hon.

Dr William Moyes
Cadeirydd

Ian Brack
Prif Weithredwr a Chofrestrydd



3. Trosolwg Busnes 2020

a) Pwy ydym ni

Yn 2020, roedd y GDC yn cyflogi cyfartaledd o 354 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Fe'i goruchwylir gan Gadeirydd a Chyngor anweithredol, sy'n cynnwys 12 aelod, gyda chwech ohonynt yn aelodau nad ydynt yn gofrestrdig (lleyg) a chwech yn weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Yn ogystal, helpodd tua 440 o aelodau cyswllt a gwirfoddolwyr ni i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys paneli apêl ac Addasrwydd i Ymarfer, paneli asesu cofrestru, sicrhau ansawdd addysg ac ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS).

Mae gennym bum cyfarwyddiaeth:

- Addasrwydd i Ymarfer.
- Cyfreithiol a Llywodraethu.
- Datblygu Sefydliadol.
- Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol.
- Strategaeth.

Mae'r cyfarwyddiaethau hyn yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol (EMT).

Mae'r cyfarwyddiaethau'n cael eu goruchwyllo gan y Prif Weithredwr, sy'n gweithredu fel y Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu hefyd.

Yn 2020, roedd yr EMT yn gyfrifol am:

- arwain a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gweithrediadau'r GDC, a gwella eu hansawdd a'u heffeithlonrwydd
- gweithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor
- cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith
- nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel briodol gydag atebolrwydd clir.

Organogram y GDC



b) Ymrwymiad i gydraddoldeb

Mae arfer gorau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd ar ein gwaith o ran dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Rydym yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau neu unigolion wrth wneud ein gwaith o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw priodol i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth
- hyrwyddo cyfle cyfartal; rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

Rydym wedi ymrwmo i roi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr. Mae ein dull o sicrhau diogelwch y cyhoedd yn seiliedig ar gred y dylai pob unigolyn gael ei drin yn deg a chael mynediad at gyfle cyfartal.

Pan gaiff ei ddarparu, rydym yn casglu data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar ein cofrestreion o dan benawdau'r nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; hil; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Yn ogystal, lle y'i darperir, rydym yn cadw data cydraddoldeb ar gyfer prosesau addasrwydd i ymarfer, ar gyfer achosion a atgyfeirir i'w hasesu.

Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisiâu a mentrau newydd, ac rydym yn casglu data cydraddoldeb pan fyddwn yn cynnal unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus. Defnyddir hyn i ddeall a rhannu'r ymatebion i ymgynghoriadau ac i ddeall yr effaith ar bobl ag amrywiaeth o nodweddion gwarchoddedig.

Er mwyn sicrhau bod ein gwefan yn gwbl hygyrch, comisiynwyd Gwasanaethau Hygyrchedd Ymddiriedolaeth Shaw i gynnal archwiliad hygyrchedd, gan werthuso yn erbyn Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) W3C 2.1 hyd at lefel cydymffurfio AA. Yn dilyn yr archwiliad, gwnaed newidiadau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod cydraddoldeb yn ystyriaeth bwysig i'n holl waith yn y dyfodol, gan gynnwys wrth ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2023-2025 sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Yn 2020, datblygwyd ein [Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant \(EDI\)](#) newydd, a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2021.



c) Adolygiad 2020 y cynllun busnes

Ymateb i'r pandemig

Yn ystod 2020, newidiodd y pandemig y cyd-destun roeddem yn gweithio ynddo. Ni ellir atal swyddogaethau statudol y sefydliad, felly roedd angen i ni eu cyflawni drwy weithio o bell lle bynnag y bo modd neu mewn safleoedd diogel o ran COVID lle bo angen. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni wneud gwaith a gweithgareddau heb eu cynllunio i sicrhau y gallem barhau i weithredu'n effeithiol. Aethom ati i:

- greu cynnwys gwefan pwrpasol a oedd yn caniatáu i weithwyr deintyddol proffesiynol a rhanddeiliaid gael gafael ar yr wybodaeth a'r canllawiau COVID-19 diweddaraf gydol y pandemig
- datblygu gweithdrefnau a phrosesau newydd a oedd yn ein galluogi i gynnal ein gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer o bell, lle'r oedd yn briodol gwneud hynny. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith a oedd yn ein galluogi i barhau i gynnal gwrandawiadau drwy'r cyfnodau o gyfyngiadau symud, a oedd yn hollbwysig gan ei fod yn caniatáu i ni weithredu lle'r oedd gennym bryderon y gallai fod risg i ddiogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd
- comisiynu ymchwil a chyflwyno digwyddiadau ymgysylltu ar-lein i ddeall effaith COVID-19 ar y cyhoedd a sut maent yn defnyddio gwasanaethau deintyddol ac ar weithwyr deintyddol proffesiynol a'u practisau deintyddol. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith a roddodd ddarlun clir o effaith y pandemig ar gleifion a'u mynediad at wasanaethau deintyddol yn ogystal â'r effaith sylweddol mae'r pandemig wedi ei chael ar weithwyr deintyddol proffesiynol ac y bydd yn parhau i'w chael am beth amser
- cwblhau adolygiad o'n Strategaeth Gorfforaethol i sicrhau ei bod yn dal i fod yn berthnasol yn y cyd-destun newidiol roeddem yn rheoleiddio ynddo
- diwygio ein sicrwydd ansawdd addysg i alluogi asesiadau o bell o ddarparwyr addysg a gweithio ar y cyd â darparwyr addysg i sicrhau bod carfan 2020 o raddedigion BDS yn gallu cwblhau eu blwyddyn olaf o hyfforddiant a'u bod yn gallu graddio. Gwnaethom hefyd sefydlu grŵp rhanddeiliaid addysg ddeintyddol rheolaidd i ddod â sefydliadau ac arweinwyr addysg ynghyd, gan gynnwys y Cyngor Ysgolion Deintyddol, COPDEND, Cyfarwyddwyr Hylendid a Therapi a'r pedwar CDO, i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu israddedigion deintyddol oherwydd y pandemig a'r effaith y gall ei chael ar eu graddio yn 2021
- gwneud gwaith sylweddol i newid ein systemau TG a'n technoleg i alluogi staff i weithio gartref a chyfathrebu â rhanddeiliaid allanol
- adolygu a diweddarau ein prosesau a'n ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau bod ein staff yn gallu gweithio gartref yn effeithiol, lle'r oedd hynny'n bosibl
- darparu hyfforddiant a deunyddiau ychwanegol i gefnogi staff a rheolwyr mewn meysydd megis lles ac iechyd meddwl, yn ogystal â sicrhau cyfathrebu cyson â staff a'r Cyngor i sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau neu wybodaeth newydd, yn enwedig yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau symud a newidiadau i lefelau haenau



- gwneud gwaith sylweddol, yn dilyn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud cenedlaethol i sicrhau bod ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham a'n hystafelloedd Gwrandawiadau yn ddiogel o ran COVID. Roedd hyn yn cynnwys lleihau capasiti desgiau, cyflwyno sgriniau amddiffynnol a systemau un ffordd, cynyddu amserlenni glanhau a darparu gorsafoedd diheintio dwylo yn yr adeiladau
- yn olaf, cwblhawyd adolygiad o'n Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio 2020, a arweiniodd at rywfaint o waith yn cael ei gyflymu, rhywfaint yn cael ei oedi a rhywfaint yn cael ei atal. Mae gwneud hyn wedi helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau drwy ganolbwyntio ar y gweithgareddau pwysicaf, yng ngoleuni'r pandemig.

Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio

Pan gyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio (CCP) ar gyfer 2020, roeddem yn rhagweld y byddem yn hyblyg ac yn gwneud newidiadau i fanylion a phroffil y cynllun gydol y flwyddyn wrth i flaenoriaethau newid. Yn amlwg, ni allem fod wedi rhagweld yr effaith sylweddol y byddai COVID-19 yn ei chael ar y GDC a'n cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn ac, o ganlyniad, newidiodd ein blaenoriaethau a'n llwyth gwaith yn sylweddol gydol 2020.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd 81 o brosiectau ar ein cynllun gwaith ar gyfer 2020. Fodd bynnag, roedd newidiadau i'n llwyth gwaith a'n blaenoriaethau gydol y flwyddyn yn effeithio ar ein cynlluniau. O'r 81 o brosiectau ar ein cynllun gwaith gwreiddiol:

- cafodd 45 o brosiectau eu cwblhau neu maent ar y gweill i'w cyflawni yn 2021 neu 2022, o fewn eu hamserlen wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys wyth prosiect a unwyd â gweithgareddau eraill a phum prosiect a ymgorfforwyd mewn gweithgareddau busnes fel arfer
- adolygwyd 24 o brosiectau a symudwyd eu dyddiadau cwblhau, oherwydd effaith COVID-19 neu am eu bod wedi'u hailflaenoriaethu i ganiatáu i waith arall gael ei gwblhau
- cafodd chwe phrosiect eu gohirio oherwydd newidiadau i'r gyllideb ar gyfer 2021. Caiff y rhain eu hadolygu a'u hystyried i'w hailflaenoriaethu pe bai cyllideb ychwanegol ar gael yn ystod 2021
- ataliwyd chwe phrosiect am amryw o resymau gan gynnwys newidiadau i'r dirwedd a oedd yn golygu nad oedd angen y gwaith mwyach ar hyn o bryd, cafodd y gwaith bwriedig ei ddisodli gan y pethau y gellir eu cyflawni o brosiectau eraill neu newidiadau i arferion gweithredol.



Cyflawniadau yn 2020

Daeth ein rhaglen ystadau, a ddechreuodd yn 2018, i ben yn gynnar yn 2020. Roedd hyn yn cynnwys datblygu canolfan weithredol yn Birmingham a chwblhau'r gwaith ailosod i'n swyddfa yn Llundain ar Stryd Wimpole. Fe wnaethom gyflwyno system recordio sain ddigidol newydd i'n hystafelloedd Gwrandawiadau yn Llundain hefyd.

Daeth y rhaglen Addasrwydd i Ymarfer i ben yn chwarter un. Cyflwynodd y gwaith hwn brosesau gweithredol a gwaith tîm gwell i gydbwysu capasiti adnoddau ar draws achosion, gan wella ein heffeithlonrwydd a'n hadroddiadau yn y maes hwn. Gwnaethom gyflwyno cyfres o gyhoeddiadau Dysgu a Rennir a ddarparodd ddiweddariad ac adolygiad chwarterol o'r themâu a welwyd mewn ymchwiliadau achos Addasrwydd i Ymarfer. Gwnaethom ddiwygio ein gweithdrefnau Grŵp Penderfyniadau Asesu Cychwynol fel rhan o'n rhaglen wella barhaus hefyd.

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom weithredu ffioedd cais i gofrestru ar gyfer pobl sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf. Roedd hyn yn unol â'n hymrwymiad i sicrhau ein bod yn dileu croes-gymhorthdal, lle bo modd, fel bod cost rheoleiddio'n cael ei hysgwyddo gan y rhai sydd fwyaf cysylltiedig â'r gweithgarwch hwnnw.

Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon, gwnaethom amryw o newidiadau i'n gweithrediadau swyddfa gefn. Roedd hyn yn cynnwys newid ein darparwr banc, newid ein system Debyd Uniongyrchol, uwchraddio ein system CRM (gan arwain at well cefnogaeth a phrofiad defnyddwyr o fewn ein gweithrediadau Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer), cyflwyno meddalwedd archebu teithio newydd a chyflwyno'r gwaith i adolygu opsiynau ar gyfer cyflwyno system deffoni gwmwl newydd.

Cwblhawyd ein gwaith i adolygu a diweddarau'r deunyddiau cymorth ar gyfer cofrestrion newydd ar ddiwedd 2020, gyda'r deunyddiau newydd yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2021.

Cwblhawyd ein hadolygiad o barodrwydd graddedigion deintyddol a hyfforddwyd yn y DU i gofrestru gyda'r GDC ac ystyriwyd a oedd disgwyliadau 'dechreuwr diogel' yn briodol ac yn ddealladwy. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn bwydo i mewn i adolygiad thematig o addysg yn awr sy'n rhan o CCP 2021-2023, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2020.

Er bod y pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar ein hymgysylltiad, llwyddwyd i gwblhau llawer o'n gwaith a'n gweithgareddau bwriedig. Ym mis Chwefror 2020, llwyddwyd i gynnal ein hail gynhadledd Moving Upstream, gyda thros 130 o gynrychiolwyr yn bresennol. Creodd hyn fforwm i randdeiliaid o bob rhan o'r sector deintyddiaeth ddod ynghyd a thrafod yr heriau a'r cyfleoedd a oedd yn wynebu'r proffesiwn bryd hynny, a chafodd dderbyniad gwresog.

O fis Mawrth 2020 ymlaen, daeth ein holl weithgarwch ymgysylltu wyneb yn wyneb i ben, a dechreuwyd symud ein gweithgareddau ymgysylltu ar-lein, gan ddefnyddio cyfryngau digidol. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r ysgolion deintyddol i ailgynllunio ein rhaglen ymgysylltu â myfyrwyr a chofrestrion newydd i ddatblygu rhaglen y gellid ei chyflwyno o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Roedd y newid hwn yn ein galluogi i ddarparu 12 digwyddiad ymgysylltu â myfyrwyr a 10 digwyddiad ymgysylltu â deintyddion sylfaen o bell i dros 2,100 o unigolion yn ystod penllanw'r pandemig. Rydym wedi cynhyrchu recordiad o'r cyflwyniad hefyd i alluogi myfyrwyr i'w wyllo eto yn y dyfodol.



Gwnaethom ddatblygu gweithdai a gweminarau ar-lein gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y gallent barhau i ymgysylltu â datblygiadau polisi a chyfrannu at ddarparu mewnbynnau fel yr oeddent wedi bod yn ei wneud o'r blaen. Gwnaethom ddatblygu a chyflwyno gweminar hefyd yn canolbwyntio ar broffesiynoldeb, gyda thros 400 o weithwyr deintyddol proffesiynol yn bresennol, gan ein galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â llawer mwy o bobl nag y byddem wedi gallu ei wneud wyneb yn wyneb. Erbyn mis Hydref, roedd ein gweithgareddau ymgysylltu ar yr un lefelau ag yr oeddent yn 2019 ac mae'r duedd hon wedi parhau i 2021.

Yn ogystal, gwnaethom ddarparu amrywiaeth o welliannau digidol a wnaeth wella ein gallu i gyfathrebu'n ddigidol ymhellach, gan ein galluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol drwy ein gwefan. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad hygrychedd i sicrhau bod ein gwefan yn gwbl hygrych a chynhwysol a bod modd i bob grŵp cynulleidfa ar draws pob dyfais ei defnyddio. Rydym wedi adolygu ein holl gynnwys hefyd i sicrhau ei fod yn berthnasol i bobl sydd â phryder am weithiwr deintyddol proffesiynol neu sydd am wneud cwyn, a datblygu set newydd o dempledi sy'n ein galluogi i drosi llawer o'r cyhoeddiadau PDF ar ein gwefan yn dudalennau gwe sy'n llawer haws dod o hyd iddynt a'u darllen.

Yn olaf, bu amryw o brosiectau rydym wedi'u datblygu drwy 2020 i'w cyflawni yn 2021. Maent yn cynnwys datblygu a chyhoeddi *'Supporting the dental team - a guide for managers and employers'* a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2021; adolygiad o'r holl gyfathrebiadau cofrestru, a fydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Chwarter 2 2021. Rydym wedi paratoi ar gyfer diwygio rheoleiddio hefyd, a chaiff y gwaith hwn ei ymgorffori yn ein Rhaglen Diwygio Rheoleiddio ehangach sy'n elfen allweddol o'n Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio ar gyfer 2021-2023.

Gwaith heb ei gynllunio a gwaith ychwanegol a wnaed yn 2020

Yn ogystal â'r pandemig, roedd ffactorau eraill a newidiodd ein blaenoriaethau yn 2020. Roedd y rhain yn weithgareddau nad oeddent ar y cynllun gwaith cychwynnol neu a gafodd eu cyflymu oherwydd blaenoriaethau newidiol.

Cwblhawyd gwaith sylweddol ychwanegol ynghylch diwygio rheoleiddio, gan ragweld ymgynghoriad y llywodraeth a gyhoeddwyd yn y pen draw ym mis Mawrth 2021. Bu'n rhaid i ni wneud newidiadau i'n rheolau a'n prosesau mewn ymateb i ddiwedd cyfnod pontio ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd hyn ar ben y gwaith y bu'n rhaid i ni ei gwblhau i ddeall yr effaith ar gofrestru rhyngwladol yn y tymor byr, canolig a hir. Gwnaethom ddiwygio ein prosesau ymgeisio ar-lein i fod yn fyw ac yn barod ar gyfer y newidiadau cychwynnol ar ôl ymadael â'r UE a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy 2021 wrth i ni sicrhau bod ein llwybrau at gofrestru rhyngwladol yn diogelu'r cyhoedd ond nad ydynt yn cyfyngu'n ddiangen ar y gweithlu yn ein cyd-destun rhyngwladol newydd y tu allan i drefniadau'r UE ar gyfer cydnabod cymwysterau'r naill a'r llall.

Cwblhawyd prosiect newydd i ddeall dichonoldeb cynllun talu dros dro drwy randaliadau ar gyfer taliadau Ffioedd Cadw Blynnyddol (ARF) ac, er bod hyn yn rhywbeth y dewiswyd peidio â'i gyflwyno yn 2020, defnyddiwyd allbynnau'r gwaith dichonoldeb hwn i lywio'r prosiect gwerthuso taliadau ehangach drwy randaliadau a gwblhawyd yn 2021.

Yn olaf, mae gweithio o bell wedi ein galluogi i gwblhau prosiectau a gynlluniwyd yn y lle cyntaf ar gyfer y blynnyddoedd i ddod, gan gynnwys *'Effectiveness review of investigation and advocacy services'*, a symudodd ymlaen ac a gwblhawyd yn 2020 yn hytrach na 2022.



d) Perfformiad addasrwydd i ymarfer

Trosolwg

Pan fydd pryderon yn cael eu lleisio i ni, byddwn yn eu hystyried a, lle bo angen, yn ymchwilio iddynt i asesu a yw'r materion dan sylw'n awgrymu efallai bod addasrwydd i ymarfer gweithiwr cofrestredig yn ddiffygiol.

Pan ddywedwn fod rhywun yn "addas i ymarfer", rydym yn golygu bod ganddo'r sgiliau, yr wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad priodol i ymarfer ei broffesiwn yn ddiogel ac effeithiol. Fodd bynnag, nid mater o berfformiad clinigol neu iechyd yn unig yw addasrwydd i ymarfer.

Mae addasrwydd i ymarfer hefyd yn cynnwys unrhyw beth a allai'r cofrestrai fod wedi'i wneud sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn gweithwyr deintyddol a'r gwaith o'u rheoleiddio. Gallai hyn gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol, fel cyflawni trosedd.

Os oes pryderon am ymddygiad neu gymhwysedd gweithiwr deintyddol sy'n golygu risg ddifrifol i gleifion, neu sy'n amharu'n ddifrifol ar hyder y cyhoedd mewn deintyddiaeth, byddwn yn ymchwilio a lle bo'n briodol yn gweithredu i liniaru'r risg. Gallai pryderon ddod yn uniongyrchol gan glaf, drwy hysbysiad gan gorff arall (er enghraifft, lle mae'r heddlu'n hysbysu am euogfarn neu rybuddiad troseddol), neu o ffynonellau eraill.

Rydym yn ymchwilio lle:

- gwneir camgymeriadau gofal clinigol difrifol neu ailadroddus, er enghraifft, camgymeriadau gyda diagnosis neu weithdrefn ddeintyddol
- methir ag archwilio claf yn iawn, cael caniatâd gwybodus claf cyn rhoi triniaeth, cadw cofnodion boddhaol neu ymateb yn rhesymol i anghenion claf
- nad oes yswiriant indemniad proffesiynol
- mae problemau atal haint (er enghraifft, defnyddio cyfarpar clinigol budr wrth roi triniaeth)
- mae achos difrifol o dorri cyfrinachedd claf
- mae troseddau posibl gan gynnwys twyll, camymddwyn rhywiol, lladrata neu anonestrwydd gan weithiwr deintyddol proffesiynol
- mae iechyd gwael neu gyflwr meddygol yn effeithio'n sylweddol ar allu cofrestrai i drin cleifion yn ddiogel.

Os penderfynir bod addasrwydd i ymarfer cofrestrai'n ddiffygiol, gallai panel benderfynu:

- gwneud dim
- rhoi cerydd
- gosod amodau ar ei gofrestrriad
- atal ei gofrestrriad
- tynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr deintyddion neu'r gofrestr DCP

Mae yna broses apêl hefyd.


Ar unrhyw gam yn y broses Addasrwydd i Ymarfer, gallwn wneud cais am orchymyn interim i gyfyngu ar ymarfer cofrestrai hyd nes y penderfynir ar ei achos.



Cyfradd cau ar bob cam o'r broses Addaswydd i Ymarfer yn 2020

Mae'r diagram isod yn dangos y gyfradd cau gyfartalog ar wahanol gamau'r broses addaswydd i ymarfer (dyma gyfartaledd yr achosion y gweithredwyd yn eu cylch yn 2020 yn hytrach na nifer yr achosion a dderbyniwyd). Mae hyn yn dangos ble y gwnaed y penderfyniadau i gau achosion ac mae'n cynnwys achosion a ddechreuodd mewn blynyddoedd blaenorol, yn hytrach nag adlewyrchu'r canlyniadau ar gyfer pryderon a dderbyniwyd yn 2020, y mae llawer ohonynt eto i'w datrys.

Cyfradd cau gyfartalog ar wahanol gamau'r broses addaswydd i ymarfer



O'r 15 o achosion a glywyd yn y Pwyllgor Ymarfer, mae 11 wedi arwain at gosbau a 4 heb arwain at unrhyw gamau pellach

Cawsom 1,134 o bryderon newydd yn 2020, o gymharu â 1,362 yn 2019 – gostyngiad o 18%. Gwnaethom 1,117 o benderfyniadau asesu cychwynnol, rhai ohonynt o achosion a dderbyniwyd ar ddiwedd 2019. Derbyniwyd nifer fach o achosion yn rhy hwyr i ni wneud penderfyniad asesu cychwynnol yn 2020. O'r holl achosion a adolygwyd yn ystod yr asesiad cychwynnol, atgyfeiriwyd 81% i'w hasesu. Gwnaethom atgyfeirio 1% o achosion i'r GIG a chaewyd 18%.

Ar ôl ymchwilio ymhellach, gwnaethom 904 o benderfyniadau asesu yn 2020, o gymharu ag 886 yn 2019. Mae hyn yn adlewyrchu cronriad bach o waith tua diwedd 2019 a ddygwyd ymlaen i 2020. Oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i ymchwilio, dechreuodd llawer o'r achosion a aseswyd a oedd wedi'u cwblhau cyn 2020. Atgyfeiriwyd 46% o'r achosion a adolygwyd yn ystod y cam asesu i Archwilwyr Achosion a chaewyd 54% o achosion yn y cam hwn. Roedd hyn yn cyfateb i 37% o gyfanswm yr achosion a dderbyniwyd yn symud ymlaen i adolygiad Archwilydd Achosion. Yn dilyn adolygiad Archwiliwr Achosion, caewyd 10% o'r cyfanswm heb unrhyw gamau pellach, caewyd 12% gyda chyingor, rhybudd neu ymgymeriadau ac atgyfeiriwyd 15% i'r Pwyllgor Ymarfer. O'r 15% hwn, arweiniodd 11% at gosbau ac ni arweiniodd 4% at unrhyw gamau pellach.

Gwnaeth Archwilwyr Achosion 455 o benderfyniadau yn 2020. Roedd y rhain yn cynnwys achosion sydd wedi'u hatgyfeirio'n ôl atynt naill ai gan y GDC neu dîm amddiffyn y gweithiwr deintyddol proffesiynol cyn i'r achos gael ei glywed gan Bwyllgor Ymarfer. Roedd hyn yn ostyngiad o 34% mewn penderfyniadau a wnaed o gymharu â 2019 (691), sy'n adlewyrchu'r gostyngiad mewn achosion addasrwydd i ymarfer a dderbyniwyd ers 2018. O'r 455 o achosion, caeodd yr Archwilwyr Achosion 60% ohonynt, atgyfeiriwyd 39% i Bwyllgor Ymarfer a chytunwyd ar ymgymeriadau mewn 1% arall o achosion.

Arweiniodd hyn at 176 o atgyfeiriadau gan archwilwyr achos i'r Pwyllgorau Ymarfer, gostyngiad o 38% o gymharu â 2019. Yn ogystal, atgyfeiriodd Archwilwyr Achosion 23 o'r achosion hyn i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim. Roedd hyn yn gynydd o 7% i 13% o achosion a atgyfeiriwyd i'r Pwyllgorau Ymarfer a'r Pwyllgor Gorchmynion Interim.

Yn 2020, gostyngodd canran yr achosion a gaewyd yn ystod y cam asesu cychwynnol o 29% i 19% (gan gynnwys y rhai a atgyfeiriwyd i'r GIG) tra bod canran yr achosion a arweiniodd at wrandawriad wedi aros tua'r un fath â 2019, sef 15%.

Credwn fod y newidiadau hyn, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i'n hymdrechion gyda'r proffesiwn a'r cyhoedd i osgoi materion amhriodol yn cael eu codi gyda ni, ac yn adlewyrchu'r nifer is o achosion a dderbynnir.

Ceir rhagor o fanylion am ein perfformiad yn yr [adroddiad ystadegol Addasrwydd i Ymarfer](#), a gyhoeddir ar wahân.

Gwrandawiadau Addaswydd i Ymarfer

Mae achosion a atgyfeirir gan archwilwyr achosion yn cael eu clywed gan un o dri Phwyllgor Ymarfer statudol. Mae pob panel yn cynnwys deintydd, gweithiwr gofal deintyddol ac aelod lleyg. Cwblhaodd y Pwyllgorau Ymarfer 92 o wrandawiadau cychwynnol yn 2020, gostyngiad o'r 141 o wrandawiadau cychwynnol a gynhaliwyd yn 2019. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, a arweiniodd at ohirio gwrandawiadau cychwynnol rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf.

Arweiniodd y gohiriadau hyn at ostyngiad sylweddol mewn perfformiad hefyd. Yr amser canolrif rhwng archwilwyr achosion yn atgyfeirio achos a chynnal y gwrandawriad cychwynnol oedd 296 diwrnod (9 mis a 22 diwrnod), o gymharu â 263 diwrnod (8 mis ac 18 diwrnod) yn 2019. Dechreuwyd 44% o fewn 9 mis i gael eu hatgyfeirio, o gymharu â 60% yn 2019. Ar gyfartaledd, roedd gwrandawriad cychwynnol yn para 5.3 diwrnod, o gymharu â 4.9 diwrnod yn 2019.

Yn 2020, cynhaliwyd 61 gwrandawriad ar gyfer deintydd (67%) a 31 ar gyfer gweithiwr gofal deintyddol (DCP). Cafodd 21% o ddeintyddion a 39% o'r DCPs a oedd ag achosion a glywyd gan Bwyllgor Ymarfer eu dileu o'r gofrestr (27% i gyd). Ar y llaw arall, ni chafodd 32% o ddeintyddion a 13% o DCPs unrhyw gosb o ganlyniad i'w gwrandawriad (26% i gyd). Arweiniodd 30% o achosion at atal a 8% at osod amodau. Roedd y cyfrannau ar gyfer y cosbau hyn yr un fath ar gyfer deintyddion a DCPs.

Dengys y tabl isod ganlyniadau'r holl wrandawiadau cychwynnol Addaswydd i Ymarfer yn 2020.

Canlyniad	Nifer y Canlyniadau	% o'r Cyfanswm
Tynnu ac atal yn syth	25	27%
Atal yn syth (gydag adolygiad)	23	25%
Atal (gydag adolygiad)	4	4.5%
Atal	1	1%
Amodau i'w gosod yn syth (gydag adolygiad)	5	5.5%
Amodau (gydag adolygiad)	1	1%
Addaswydd i ymarfer yn ddiffygiol. Cerydd	9	10%
Addaswydd i ymarfer heb ei effeithio. Cau'r achos	14	15%
Ffeithiau a brofwyd ddim yn cyfateb i gamymddwyn. Cau'r achos	6	6.5%
Ffeithiau heb eu profi. Cau'r achos	3	3.5%
Dim achos i'w ateb	1	1%
Cyfanswm	92	100%

Gorchmynion Interim Addaswydd i Ymarfer

Ar unrhyw gam yn y broses addaswydd i ymarfer, gallwn wneud cais am orchymyn interim i gyfyngu ar ymarfer cofrestrai hyd nes y penderfynir ar ei achos. Gwnawn hyn lle credwn fod gwir risg o niwed sylweddol i aelod o'r cyhoedd, lle mae gwarchod hyder y cyhoedd yn y proffesiwn o fudd i'r cyhoedd, i gynnal safonau proffesiynol neu lle mae er lles y cofrestrai ei hun. Yn 2020, cyflwynodd y Pwyllgor Gorchmynion Interim 142 o ganlyniadau cychwynnol. Ni chyflwynwyd unrhyw orchymyn mewn 52 o achosion, gosodwyd amodau interim mewn 47 o achosion a chyflwynwyd ataliad dros dro mewn 43 o achosion.



e) Perfformiad cofrestru

Trosolwg

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr DCP gofrestru gyda'r GDC i ymarfer yn gyfreithlon yn y DU. Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr fod â chymwysterau priodol, neu basio asesiad, a bodloni gofynion iaith Saesneg, iechyd a chymeriad i'w hystyried yn addas i ymarfer fel aelod o'r tîm deintyddol.

Gellir gwneud cais mewn sawl ffordd. Rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

- Cymhwyster DU cydnabyddedig.
- Cymhwyster Ewropeaidd cydnabyddedig.
- Cymhwyster Tramor cydnabyddedig.
- Asesiad o addasrwydd i gofrestru, drwy asesiad o sgiliau a gwybodaeth gan banel y GDC.
- Llwyddiant yn Rhannau 1 a 2 o'r Arholiad Cofrestru Tramor.

Rhestri arbenigol

Rydym yn cadw rhestri o ddeintyddion sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i gael eu hystyried yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol hefyd.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae gan ymarferwyr deintyddol ddyletswydd i ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn rheolaidd. Mae DPP yn un o'r gofynion gorfodol ar gyfer cofrestru gyda'r GDC.

Nifer y cofrestreion yn 2020

Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm y deintyddion a DCPs ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2020. Mae Dim ond unwaith y mae DCPs sydd â mwy nag un teitl, er enghraifft, hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, yn cael eu cyfrif yn y tabl hwn.

Roedd cynnydd o 0.6% yng nghyfanswm y cofrestreion, o 113,439 ar ddiwedd 2019 i 113,960 ar ddiwedd 2020.¹

Math o gofrestrriad	Nifer y Cofrestreion	% o'r cyfanswm
Deintydd	43,054	38%
DCP	70,906	62%
Cyfanswm	113,960	100%

Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl rhywedd deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol ar 31 Rhagfyr 2020².

Math o gofrestrriad	Gwryw	% o'r cyfanswm	Benyw	% o'r cyfanswm	Cyfanswm
Deintydd	21,121	49.1%	21,933	50.9%	43,054
DCP	5,213	7.4%	65,693	92.6%	70,906
Cyfanswm	26,334	23%	87,626	77%	113,960

1 Nodyn 78 Mae deintyddion wedi'u cofrestru fel DCPs hefyd felly maent wedi'u cynnwys yn y ddau rif yn nhabl

2 Mae canrannau'n cynrychioli cyfran cyfansoddiad rhywedd yn y gofrestr gyffredinol. Mae'r niferoedd yn y tabl hwn yn cyfateb i dabl un.



Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl grwpiau deintyddol ar 31 Rhagfyr 2020³

Teitl y Cofrestrriad	Nifer y Cofrestreion	% o gyfanswm y teitlau ar y Gofrestr	Nifer y teitlau newydd a ychwanegwyd yn 2020	% o gyfanswm y teitlau newydd a ychwanegwyd yn 2020
Nyrs Ddeintyddol	58,972	49%	3,813	56%
Deintydd	43,054	36%	1,627	24%
Hylenydd Deintyddol	7,812	6%	660	10%
Technegydd Deintyddol	5,529	5%	81	1%
Therapydd Deintyddol	3,938	3%	525	8%
Therapydd Orthodontig	734	1%	58	1%
Technegydd Deintyddol Clinigol	367	<1%	1	0%
Cyfanswm	120,406	100%	6,765	100%

Roedd cynnydd o 0.8% yng nghyfanswm y teitlau cofrestredig yn 2020, i fyny o 119,397 yn 2019 i 120,406 yn 2020.

Cyfansoddiad y gofrestr yn ôl ardal gymhwys ar 31 Rhagfyr 2020

Deintyddion, yn ôl ardal gymhwys

Ardal Gymhwys	Nifer	% o'r cyfanswm
Wedi cymhwys yn y DU	33,151	77%
Wedi cymhwys yn yr AEE	6,966	16%
ORE – Archwiliad Statudol y DU	1,354	3%
Wedi cymhwys yng ngweddill y byd	1,583	4%
Cyfanswm	43,054	100%

Ychwanegiadau newydd i'r gofrestr Deintyddion yn 2020, yn ôl ardal gymhwys

Ardal Gymhwys	Nifer y Cofrestreion	% o'r Cyfanswm
Wedi cymhwys yn y DU	1,070	66%
Wedi cymhwys yn yr AEE	357	22%
ORE – Arholiad Statudol y DU	106	7%
Wedi cymhwys yng ngweddill y byd	94	6%
Cyfanswm	1,627	100%

³ Mae'r tabl hwn yn rhoi nifer yr aelodau ym mhob math o gategori gweithiwr deintyddol ar y gofrestr. Mae gweithiwr deintyddol proffesiynol sydd â mwy nag un teitl yn cael ei gyfrif unwaith ar gyfer pob teitl sydd ganddo. Felly, mae'r cyfanswm ar gyfer y tabl hwn yn fwy na chyfanswm cyffredinol nifer y cofrestreion.



DCPs, yn ôl ardal gymhwyso

Math o Gofrestriad	Wedi cymhwyso yn y DU	Wedi cymhwyso yn yr AEE	Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd	Cyfanswm
Nyrs Ddeintyddol	58,538	258	176	58,972
Hylenydd Deintyddol	6,636	462	714	7,812
Technegydd Deintyddol	5,268	225	36	5,529
Therapydd Deintyddol	3,414	2	522	3,938
Therapydd Orthodontig	709	4	21	734
Technegydd Deintyddol Clinigol	363	0	4	367
Cyfanswm	74,928	951	1,473	77,352

Ychwanegiadau newydd i'r gofrestr DCP yn 2020, yn ôl ardal gymhwyso

DCP Teitl	Wedi Cymhwyso yn y DU	Wedi cymhwyso yn yr AEE	Wedi cymhwyso yng ngweddill y byd	Cyfanswm
Nyrs Ddeintyddol	3,697	21	95	3,813
Hylenydd Deintyddol	310	32	318	660
Therapydd Deintyddol	250	0	275	525
Technegydd Deintyddol	72	5	4	81
Therapydd Orthodontig	42	1	15	58
Technegwyr Deintyddol Clinigol	0	0	1	1
Cyfanswm	4,371	59	708	5,138

Ceir rhagor o fanylion am ein perfformiad cofrestru yn yr [adroddiad Perfformiad Cofrestru](#), a gyhoeddwyd ar wahân.



f) Adolygiad ariannol

Dadansoddiad incwm a gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio

Mae'r [cyfrifon](#) ar dudalennau 60–63 yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon arferol. Er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid, mae'r tabl canlynol yn dangos ein perfformiad yn ôl swyddogaeth reoleiddio:

	2020 £'000	2020 £'000	2019 £'000	2019 £'000
Incwm				
Cofrestru	38,114		45,984	
Cofrestru Tramor	422		1,592	
Incwm Gweithredu Arall	174		19	
Cyfanswm Incwm		38,710		47,595
Gwariant				
Gweithgareddau Rheoleiddio				
Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau	12,493		16,473	
Cofrestru	2,536		3,023	
Arholiad Cofrestru Tramor	963		1,639	
Polisi a Rheoli Rhanddeiliaid	2,264		2,256	
Llywodraethu	2,318		2,202	
Adrodd a Chyflawni Corfforaethol	1,301		1,028	
Sicrwydd Ansawdd	769		831	
Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol	326		334	
		22,970		27,786
Gweithgareddau cymorth				
Cyllid, Adnoddau Dynol a Phrif Swyddog Gweithredol	3,697		3,546	
Swyddfeydd a Gwasanaethau Swyddfa	2,390		1,680	
Ystadau	-		1,159	
Technoleg Gwybodaeth	2,062		2,558	
Cwtogi cynlluniau pensiwn	-		(1,670)	
Colled ar waredu a lleihau asedau	411		3	
Dibrisiant ac Amorteiddiad	1,512		1,576	
		10,072		8,852
Cyfanswm Gwariant		33,042		36,638
Incwm buddsoddi		345		516
Enillion/(colledion) wedi'u gwireddu wrth werthu o fuddsoddiadau		(751)		59
Enillion o werthu asedau		40		3
Enillion/(colled) nas gwireddwyd ar fuddsoddiadau		2,243		2,080
Addasu i gostau treth a nawdd cymdeithasol		-		107
Gwarged/(Diffyg) cyn trethiant		7,545		13,722
Trethiant		(393)		(273)
(Elw/colled) actiwaraid		(5,216)		323
Gwarged/(Diffyg) ar gadw ar ôl trethiant		1,936		13,772

O'n hincwm yn 2020, neilltuwyd 69.5% i gyflawni gweithgarwch rheoleiddio (2019:75.8%), defnyddiwyd 24.7% ar gyfer swyddogaethau galluogi hanfodol (2019: 24.4%) a defnyddiwyd 5.8% ar gyfer gwariant arall nad yw'n arian parod (2019: -0.2%).



Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei ariannu'n bennaf drwy ffioedd sy'n cael eu talu gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol (DCP) sy'n rhaid iddynt, o dan Ddeddf Deintyddion 1984, gofrestru gyda'r Cyngor i ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Telir ffioedd i ni hefyd gan ddeintyddion am gael aros ar y rhestr arbenigol.

Dadansoddiad incwm

Gostyngodd cyfanswm yr incwm gweithredu £8.9 miliwn yn y flwyddyn i £38.7 miliwn, (2019: £47.6 miliwn). Y prif sbardunau ar gyfer y gostyngiad hwn yw:

- gostyngiad o £8.7 miliwn mewn incwm cofrestru yn dilyn y gostyngiad yn lefel y ffi gadw flynyddol a godir ar Ddeintyddion am eu hadnewyddu yn 2020 a DCPs am eu hadnewyddu yn 2020/21
- gostyngiad o £1.2 miliwn mewn ffioedd Arholiad Cofrestru Tramor oherwydd gohirio arholiadau fel effaith uniongyrchol y pandemig
- £0.8 miliwn ychwanegol o incwm a gynhyrchir o'r ffioedd cofrestru cyntaf yn dilyn eu cyflwyno ym mis Ionawr 2020.

Dadansoddiad gwariant

Gostyngodd cyfanswm y gwariant £3.6 miliwn i £33.0 miliwn yn 2020 (2019: £36.6 miliwn); y newidiadau arwyddocaol (amrywiadau dros £0.5 miliwn) i'n gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio yn 2020 oedd:

- gostyngiad o £4.0 miliwn mewn Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawriadau o ganlyniad i:
 - o o lai o weithgarwch yn deillio'n uniongyrchol o effaith y pandemig COVID-19 ar y swyddogaeth reoleiddio. Rydym yn disgwyl y bydd costau gohiriedig bellach yn cael eu gwireddu yn ail hanner 2021 a dechrau 2022 wrth i weithrediadau normaleiddio. Rydym wedi bod yn ddoeth wrth sicrhau ein bod wedi cynnwys y risg ariannol hon yn ein rhagdybiaethau cynllunio sy'n sail i Gynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio 2021-2023
 - o o'r effaith ariannol blwyddyn lawn o ganlyniad i'r arbedion effeithlonrwydd a ddarperir gan yr adolygiad Addasrwydd i Ymarfer
- gostyngiad o £0.7 miliwn mewn gwariant sy'n ymwneud â rhedeg yr Arholiad Cofrestru Tramor oherwydd gohirio arholiadau o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig COVID-19
- cynnydd o £0.7 miliwn mewn costau Swyddfeydd a Gwasanaeth Swyddfa ar ôl cwblhau rhaglen y Strategaeth Ystadau a throsglwyddo'r holl gostau rhedeg parhaus (a godwyd yn flaenorol yn erbyn y rhaglen yn 2019) i gostau gweithredu busnes fel arfer
- gostyngiad o £1.2 miliwn mewn gwariant cysylltiedig â'r Strategaeth Ystadau, a oedd yn rhaglen waith wedi'i rheoli gan amser ac a gwblhawyd ym mis Ionawr 2020. Trosglwyddodd y rhaglen hon gost weithredol barhaus ar gyfer ein swyddfa newydd yn Birmingham i Swyddfeydd a Gwasanaethau Swyddfa o fis Ionawr 2020. Mae'r rhaglen waith hon yn parhau i fod ar y trywydd iawn i greu arbedion o tua £50 miliwn dros 15 mlynedd.
- gostyngiad o £1.7 miliwn o fudd-dal a dderbyniwyd yn 2019 i brisiad blynyddol IAS19 o'r cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2019. Roedd budd-dal y flwyddyn flaenorol yn ymwneud yn benodol â chwtogi cynllun untro o ganlyniad i'r rolau hynny a gafodd eu dileu fel rhan o gyflawni ein Strategaeth Ystadau.



Gydol 2020, cawsom fudd o benderfyniadau blaenorol roeddem wedi'u gwneud gyda'r bwriad o sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Yn 2020, cyflawnwyd £8.9 miliwn o arbedion parhaus gennym o brosiectau a ddechreuwyd mewn blynyddoedd blaenorol, a welodd ein buddsoddiad yn Shifting the Balance a'r Strategaeth Ystadau yn rhoi elw cadarnhaol am y tro cyntaf ers y buddsoddiad cychwynol. Mae'r arbedion hyn yn cynrychioli 27% o'n sylfaen costau ar gyfer 2020. Daw cyfanswm yr arbedion cronus dros y pum mlynedd hyd at Ragfyr 2020 i £21.4 miliwn.

Mae'r GDC yn cyfyngu adrodd arbedion i uchafswm o bum mlynedd. Gydol y broses o wneud arbedion effeithlonrwydd, ystyriwyd y mater yn ofalus i sicrhau nad yw gweithredu unrhyw brosiectau arbedion yn creu risg i'r cyhoedd. Mae'r GDC yn defnyddio'r arbedion hyn i sicrhau hyfywedd y sefydliad drwy gynyddu ein cronfeydd ariannol i lefel gynaliadwy, a thrwy ariannu rhaglenni sy'n buddsoddi mewn mesurau i warchod y cyhoedd yn fwy effeithlon drwy leihau cost a baich gorfodi rheoliadol.

Sefyllfa Ariannol

Y cyfalaf a ddefnyddiwyd yw £40.4 miliwn ar 31 Rhagfyr 2020 (2019: £38.4 miliwn) sy'n cynnwys cyfanswm asedau o £84.2 miliwn (2019: £82.9 miliwn) a rhwymedigaethau cyfredol ac anghyfredol o £43.9 miliwn (2019: £44.4 miliwn).

Rhagolwg

Newidiodd ein cynllun gwaith ar gyfer 2020 yn sylweddol oherwydd COVID-19, ac rydym wedi cynnwys manylion ar hyn o fewn ein hadran '[ymateb i'r pandemig](#)' ar dudalen 13. Gwnaethom gynnal adolygiad manwl o'r Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio, a arweiniodd at gyflymu rhywfaint o waith, oedi rhywfaint o waith ac atal rhywfaint o waith. Helpodd hyn i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau, wedi rheoli ein sefyllfa ariannol - drwy gwblhau dadansoddiad senario manwl yn ymwneud ag incwm posibl - a'n galluogi i ganolbwyntio ar y gweithgareddau pwysicaf yng ngoleuni'r pandemig a blaenoriaethau newidiol sy'n ymwneud â diwygio rheoleiddio a goblygiadau Brexit, sy'n bwydo i mewn i'n cynllun ar gyfer 2021.

Ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio 2021-2023, cwblhawyd gwaith sylweddol yn 2020 i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac yn canolbwyntio ar weithgareddau blaenoriaeth uchaf y Cyngor ar gyfer 2021-2023. Gydag ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r effaith bosibl ar ein lefelau incwm, cytunodd y Cyngor fod angen i'n cynllun ar gyfer 2021 allu ymdopi â gostyngiad o hyd at 10% yn ein hincwm o'r rhagolwg hwnnw yn 2020. O ganlyniad, cyflwynodd ein portffolio gweithgarwch bwriedig a blaenoriaeth gyllideb gytbwys ar gyfer 2021 a gyflwynodd ostyngiad o 6.5% i'r gyllideb a bennwyd ar gyfer 2020. Ystyriodd yn llawn amlygiad posibl i risg ariannol i'r sefydliad ac fe'i bwriadwyd i reoli ein cronfeydd ariannol wrth gefn yn effeithiol a chydag aliniad â'n Polisi Cronfeydd Wrth Gefn.

Bydd mentrau i gynhyrchu a monitro arbedion effeithlonrwydd newydd a gynhyrchir o fesurau a nodwyd eisoes yn parhau yn 2021. Er bod y sefydliad yn parhau i orfod bodloni targedau heriol i wneud arbedion newydd, byddwn yn parhau i sicrhau nad yw'r broses o nodi arbedion effeithlonrwydd yn risg i'r cyhoedd ac ystyried yr amgylchedd allanol newidiol y byddwn yn gweithredu ynddo ar ôl COVID-19.



Y Gronfa Bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, fe wnaeth Quantum Advisory, sef actiwari'r cynllun pensiwn, brisio elfen buddion diffiniedig ein cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2020. Yn ôl eu dadansoddiad, aeth gwerth actiwaraidd net elfen buddion diffiniedig y cynllun i lawr £5.4 miliwn yn 2020 o gymharu â'r hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Gall canlyniadau o dan y safonau adrodd newid yn ddramatig yn dibynnu ar amodau'r farchnad. Mae'r rhwymedigaethau'n gysylltiedig â chynnyrch ar fondiau corfforaethol AA tra bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn ecwitiâu neu fuddsoddiadau sy'n targedu enillion ecwiti. Cafodd asedau'r cynllun eu heffeithio'n uniongyrchol o ganlyniad i effaith COVID-19 ar farchnadoedd ariannol, gyda cholled sylweddol o ran prisio asedau'r cynllun ym mis Mawrth 2020. Roedd y prisiad asedau wedi adfer yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn rhannol oherwydd y gwelliannau yn y strategaeth risg buddsoddi a roddodd yr Ymddiriedolwr ar waith ym mis Ionawr 2020.

Mae'r gyfradd ddisgownt dybiedig yn is yn 2020 nag yn 2019, sy'n adlewyrchu llai o log ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod ac arian cyfred cyfwerth â rhwymedigaethau'r cynllun. Yn gyffredinol, dehonglir bod bondiau o'r fath yn cael eu graddio ar lefel AA neu statws cyfatebol.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r rhagdybiaeth chwyddiant wedi'i seilio ar y data chwyddiant RPI awgrymedig a gyhoeddir gan Fanc Lloegr, a oedd yn gyfradd o 3.26% y flwyddyn ar 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, ar 25 Tachwedd 2020, cadarnhaodd y Canghellor y bydd yr RPI yn cyd-fynd â mynegai'r CPIH o 2030 ymlaen. Disgwylir i'r CPIH fod yn is na'r RPI, gyda'r gwahaniaeth tua 0.9% y flwyddyn. Felly, mae premiwm risg chwyddiant wedi'i gymhwyso i ragdybiaeth chwyddiant RPI y cynllun, a gafodd ei gytuno ar gyfradd o 3.0% y flwyddyn.

Nid yw'r prisiad hwn yn ymwneud â phrisiad tair blynedd ffurfiol adran budd diffiniedig y cynllun pensiwn, a gynhaliwyd ddiwethaf ar 1 Ebrill 2018 ac sydd i fod i gael ei ddiweddarau ar 1 Ebrill 2021. Roedd hyn yn dangos gwagedd lefel ariannu actiwaraidd o £0.3 miliwn ac argymhellodd y dylid cynyddu lefelau cyfraniadau'r cyflogwr i 20.3%, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

Ar 31 Rhagfyr 2020, roedd gan y cynllun warged o £0.4 miliwn ar sail y rhagdybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', gallai fod rhaid i'r GDC gyfyngu'r gwagedd yn y datganiadau ariannol pe na bai'r GDC yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwagedd hwnnw. Mae gwerth cyfran y Cyngor, fel y'i cyfrifwyd, o gost yr holl fuddion cronus yn y dyfodol (hyd at oed ymddeol arferol aelodau), ar sail cyfrifyddu, yn fwy na'r gwagedd sydd wedi'i ddatgan yn y cynllun. Felly, nid yw'r gwagedd a adroddwyd wedi'i gyfyngu.

Rhoddir manylion llawn y gwerthusiad a'r rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd yn nodyn 16.



Risgiau hylifedd

Cynyddodd ein balans arian parod i £47.4 miliwn (2019: £40.3 miliwn) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balansau'n gylchol ac ar eu huchaf ym mis Rhagfyr / Ionawr a Gorffennaf / Awst pan fydd deintyddion a DCPs yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae ein gwariant wedi'i wasgaru'n gyfartal drwy'r flwyddyn ariannol.

Ar ôl ystyried y sefyllfa risg bresennol a'r heriau a wynebwn o ran y canlyniadau ariannol fydd yn deillio o COVID-19, o fewn y GDC a'r proffesiwn deintyddol ehangach, rydym wedi cwblhau asesiad manwl o hylifedd sy'n cynorthwyo gyda pharatoi'r cyfrifon fel busnes hyfyw. Cwblhawyd y gwaith hwn fel rhan o'n cylch cynllunio CCP 2021-2023 ym mis Hydref 2020 a chafodd ei ddiweddarau eto ym mis Chwefror 2021.

Mae'r senarios yr ydym wedi'u modelu'n cynnwys asesu ystod o risg incwm, ac effaith amhariad ar ein portfolio buddsoddi. Yn dilyn ein modelu, rydym yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw risg hylifedd sylweddol.

Buddsoddir y balansau nad oes eu hangen am resymau gweithredol tymor byr yn unol â'n hegwyddorion buddsoddi, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd ddiwethaf gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020.

Cronfeydd Wrth Gefn

Cafodd y [Polisi Cronfeydd Wrth Gefn](#) ei ystyried a'i gytuno gan y Cyngor ym mis Hydref 2020. Mae'r Cyngor yn rheoli lefel y cronfeydd hyn drwy gyfeirio at gronfeydd rhydd, wedi'u haddasu i ystyried ein hasesiad cyfredol o risg ariannol. Cronfeydd na chawsant eu clustnodi ar gyfer rhwymedigaethau gwariant yw'r rhain, fel taliadau dibrisio o brynu asedau cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol. Y nod yw cynnal lefel y cronfeydd rhydd ar lefel nad yw'n ormodol ond nad yw'n risg i solfedd.

Mae'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn ystyried:

- amcanion y Cyngor yn unol â'n cyfrifoldebau statudol a rheoliadol
- ariannu cyfalaf gweithio a rheoli llif arian parod dydd i ddydd y Cyngor, gyda'r incwm ar ei uchaf yn yr haf a'r gaeaf
- risgiau i incwm a gwariant y Cyngor
- rhaglenni mawr o wariant cyfalaf a gynlluniwyd.

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2020 oedd £40.4 miliwn (2019: £38.4 miliwn) y mae cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn cynrychioli £35.9 miliwn ohono (2019: £30.7 miliwn).

Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn ar 31 Rhagfyr 2020	£ miliwn
O'r arian hwn:	35.9
Cronfeydd wrth gefn wedi'u hymrwymo i asedau sefydlog	16.3
Cronfeydd rhydd wrth gefn	19.6
Cronfeydd rhydd wrth gefn a fynegir fel nifer y misoedd o wariant gweithredol blynyddol	5.9

Wrth osod lefel darged, ystyriodd y Cyngor y byddai cronfeydd rhydd wrth gefn o isafswm o dri mis o wariant gweithredol ac uchafswm o chwe mis yn briodol, gyda'r targed yn bedwar mis a hanner o wariant gweithredol wedi'i addasu ar gyfer ein hasesiad presennol o risg ariannol erbyn diwedd ein cynllun tair blynedd presennol o weithgareddau strategol.

Mae ein dull presennol o gyllidebu yn lleihau lefel y gyllideb wrth gefn sydd gennym ar gyfer ansicrwydd ariannol o fewn y gyllideb gymeradwy flynyddol. Yn hytrach, rydym yn gosod unrhyw risg ac ansicrwydd ariannol posibl o ran amseru gwariant yn erbyn cronfeydd rhydd wrth gefn. Mae hyn yn golygu bod mwy o debygolrwydd o'r angen i alw yn erbyn cronfeydd rhydd wrth gefn nag y byddai wedi digwydd yn hanesyddol. Mae ein hasesiad yn erbyn cynllun CCP 2021-2023 yn dangos y byddai cynlluniau gwariant cyfredol yn cynnal cronfeydd rhydd wrth gefn ar 4.9 mis o wariant gweithredu (£16.2 miliwn) pan gânt eu haddasu ar gyfer ein hasesiad presennol o risg ariannol (£9.4 miliwn).

Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol yng ngoleuni ein ffocws cynyddol ar heriau ac amcangyfrifon cynllunio ariannol tymor canolig yn dilyn yr heriau ariannol a wynebwr gan y sefydliad a'r proffesiwn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig COVID-19.

Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan ein harchwilwyr, Haysmacintyre LLP o 10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1AG ac, yn unol â Deddf Deintyddion 1984, gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae [adroddiad yr archwilydd annibynnol](#) i'w weld ar dudalen 57 o'r adroddiad hwn, a [thystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol](#) ar dudalen 52.

Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr

Cyn belled ag y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na wŷr archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol amdani. Rydym wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gwybod am y wybodaeth honno.

Ian Brack, Prif Weithredwr, Cofrestrwydd a Swyddog Cyfrifyddu

24 Mehefin 2021

Adran Dau: Adroddiad Atebolrwydd

4. Strwythur y cyngor a'i bwyllgorau

Strwythur y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod: chwe aelod nad ydynt yn gofrestredig (lleyg) a chwe gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Rhwng 1 Ionawr a 30 Medi 2020, roedd aelodau'r Cyngor fel a ganlyn:

Aelodau cofrestredig	Aelodau nad ydynt yn gofrestredig (lleyg)
Catherine Brady	William Moyes (Cadeirydd)
Jeyanthi John	Terry Babbs
Margaret Kellett	Geraldine Campbell
Caroline Logan	Anne Heal
Kirstie Moons	Sheila Kumar
Simon Morrow	Crispin Passmore

Ar ôl gwasanaethu dau dymor fel Aelodau'r Cyngor, gadawodd Geraldine Campbell, Margaret Kellett a Kirstie Moons eu swyddi ar 30 Medi 2020. Yn dilyn ymarfer recriwtio agored a chystadleuol, gwnaeth y Cyfrin Gyngor dri phenodiad newydd i'r Cyngor, o 1 Hydref 2020 ymlaen:

- Donald Burden (Aelod cofrestredig, Gogledd Iwerddon).
- Mike Lewis (Aelod cofrestredig, Cymru).
- Laura Simons (Aelod lleyg, Lloegr).



Presenoldeb mewn cyfarfodydd Cyngor yn 2020

Aelod o'r Cyngor	Ionawr	Mawrth	Mai	Meh.	Gorff.	Medi	Hydref	Rhagfyr
William Moyes (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Terry Babbs	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Catherine Brady	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓
Donald Burden**							✓	✓
Geraldine Campbell*	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
Anne Heal	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Jeyanthi John	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Margaret Kellett*	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
Sheila Kumar		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mike Lewis**							✓	✓
Caroline Logan		✓	✓	✓	✓	✓		✓
Kirstie Moons*	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
Simon Morrow	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Crispin Passmore	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Laura Simons**							✓	✓

* Daeth cyfnod y swydd i ben ar 30 Medi 2020.

**Dechreuodd cyfnod y swydd ar 1 Hydref 2020.

Pwyllgorau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Mae chwe phwyllgor statudol i gynorthwyo gyda chyflawni dyletswydd statudol y GDC fel y nodir yn Neddff Deintyddion 1984. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys panelwyr annibynnol o aelodau cofrestredig ac aelodau nad ydynt yn gofrestrdedig (aelodau lleyg). Nid yw aelodau'r Cyngor yn eistedd ar y pwyllgorau statudol. Mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Y pwyllgorau statudol yw:

Pwyllgor Ymchwilio (IC): mae'n ystyried honiadau o addasrwydd diffygiol i ymarfer er mwyn penderfynu a ddyliid cyfeirio'r honiadau at un o'r tri Phwyllgor Ymarfer (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, Pwyllgor Iechyd neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol) am ymchwiliad llawn. Mae swyddogaethau'r IC yn cael eu dirprwyo i archwilwyr achos yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol.

Pwyllgor Gorchmynion Interim (IOC): gellir cyfeirio achos i'r IOC unrhyw bryd i ystyried a fyddai gwneud gorchmyn (fel amodau neu atal) yn erbyn cofrestriad gweithiwr deintyddol yn briodol cyn cynnal ymchwiliad llawn.

Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol: mae'n ystyried honiadau o gamymddwyn yn erbyn gweithiwr deintyddol i benderfynu a yw'r camymddwyn yn amharu ar eu gallu i ymarfer deintyddiaeth.

Pwyllgor Iechyd: mae'n ystyried achosion lle mae'n ymddangos bod perfformiad gweithiwr deintyddol yn cael ei effeithio gan gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol.



Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol: mae'n ystyried honiadau o berfformiad diffygiol yn erbyn gweithiwr deintyddol i benderfynu a yw'r diffyg hwn yn amharu ar ei allu i ymarfer deintyddiaeth.

Pwyllgor Apeliadau Cofrestru: mae'n ystyried apeliadau gan weithwyr deintyddol ar sail naill ai gwrthod iddynt ymuno â'r gofrestr, eu tynnu oddi ar y gofrestr, neu wrthod iddynt ailymuno â'r gofrestr (ond nid gan Bwyllgor Ymarfer).

Rhoddir mwy o fanylion am waith ac aelodaeth pwyllgorau statudol y Cyngor ar ein gwefan.

Penodir aelodau'r pwyllgorau statudol gan y Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol (SPC), sy'n goruchwyllo'r gwaith o recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad y pwyllgorau statudol. Yn 2020, aelodau'r SPC oedd Rosie Varley (Cadeirydd), Martyn Green, Nigel Fisher a Tim Skelton. Yn ystod 2020, cynhaliwyd proses recriwtio agored a chystadleuol i sicrhau penodiadau newydd i'r SPC gan y byddai'r Cadeirydd, Nigel Fisher a Tim Skelton yn gadael eu swyddi ar 31 Rhagfyr 2020. O 1 Ionawr 2021, penododd y Cyngor Syr Ross Cranston FBA i gadeirio'r SPC am bedair blynedd, a phenododd yr Aelodau canlynol hefyd: Serbjit Kaur MBE (Aelod cofrestredig), HHJ Philip Sycamore (Aelod lleyg) a Carol Ashton (Aelod lleyg).

Pwyllgorau anstatudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Yn 2019, comisynodd y Cyngor adolygiad allanol o'i effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd ei Bwyllgorau. Yn 2020, yn dilyn argymhellion yr adolygiad hwnnw, adolygodd y Cyngor ei anghenion a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau anstatudol hynny a oedd yn ei gefnogi.

Yn 2020, cefnogwyd y Cyngor gan bedwar pwyllgor anstatudol:

- Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC).
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (FPC).
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu (RemNom), a alwyd yn Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol (Remco) yn flaenorol.
- Bwrdd Polisi ac Ymchwil (PRB)

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, adolygodd y Cyngor Gylch Gorchwyl y pwyllgorau hyn a phenderfynodd ddileu'r Bwrdd Polisi ac Ymchwil, fel y gallai'r gwaith a wnaed gan y Grŵp hwn gael ei ystyried yn ehangach gan y Cyngor cyfan. Cafodd yr ARC y dasg o oruchwyllo'r swyddogaeth Lywodraethu yn strategol, a gofynnwyd i'r FPC gymryd trosolwg cyffannol o berfformiad sefydliadol. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, adolygodd y Cyngor Gylch Gorchwyl y Remco a phenderfynodd y dylai'r darn strategol ehangach am ddiwylliant, talent ac arweinyddiaeth fod yn nwylo'r Cyngor cyfan a dylai cylch gwaith y Pwyllgor ehangu i ymgymryd â swyddogaeth enwebiadau ehangach. Yn unol â hynny, newidiwyd enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu (RemNom).



Roedd aelodaeth y pwyllgorau hyn yn 2020 fel a ganlyn:

Pwyllgor	Aelodaeth – 1 Ionawr i 30 Medi 2020	Aelodaeth – 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2020
Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC)	Crispin Passmore (Cadeirydd) Catherine Brady Sheila Kumar Simon Morrow Aelod Annibynnol – Rajeev Arya	Crispin Passmore (Cadeirydd) Catherine Brady Sheila Kumar Simon Morrow Aelod Annibynnol – Rajeev Arya
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (FPC)	Terry Babbs (Cadeirydd) Anne Heal Margaret Kellett Kirstie Moons	Terry Babbs (Cadeirydd) Donald Burden Anne Heal Mike Lewis
Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu (RemNom)*	Geraldine Campbell (Cadeirydd) Anne Heal Jeyanthi John Caroline Logan Aelod Annibynnol – Ann Brown	Anne Heal (Cadeirydd) Jeyanthi John Caroline Logan Laura Simons Aelod Annibynnol – Ann Brown
Bwrdd Polisi ac Ymchwil (PRB)	Kirstie Moons (Cadeirydd) Caroline Logan Catherine Brady Geraldine Campbell Margaret Kellett Simon Morrow	

* Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn flaenorol



5. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 rhaid i ni baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf sy'n cael ei benderfynu gan y Cyfrin Gyngor. Paratwir y Cyfrifon ar sail cronladau a rhaid iddynt roi barn deg a gwir am gyflwr y GDC a'i incwm a'i wariant, y newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r GDC. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n bennaf gyfrifol i'r Cyfrin Gyngor a'r Senedd am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y GDC, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r GDC.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r GDC a'r Swyddog Cyfrifyddu:

- dalu sylw i'r dyfarniad cyfrifon a wnaed gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas gyda chysondeb
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn y dyfarniad cyfrifon wedi cael eu dilyn gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfwr, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny
- cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn eu cyfanrwydd, yn deg, cytbwys a dealladwy ac yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sydd angen eu gwneud i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Mae'r GDC a'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn bod y cyfrifon, lle bo'n berthnasol i'r GDC, y cydymffurfiwyd â hwy dan bob amgylchiad perthnasol, ac mae unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.



6. Datganiad Llywodraethu

Cwmpas y Cyfrifoldebau

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal llywodraethu effeithiol a sicrhau bod mesurau rheoli mewnol cadarn yn eu lle i gynorthwyo polisiâu, nodau ac amcanion y GDC, ac i ddiogelu asedau'r sefydliad, o gofio fy mod yn bersonol atebol amdanynt. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn ystyried, er nad wyf wedi fy nghyfyngu gan, y canllawiau yn *Managing Public Money*.

Wrth wneud fy asesiad, defnyddiais wybodaeth o drafodaethau gyda, ac adroddiadau gan, yr archwilwyr mewnol a thrwy fonitro ein cofrestris risg yn barhaus. Cefais hefyd sicrwydd drwy'r flwyddyn gan Dîm Rheoli Gweithredol y GDC, o'r wybodaeth am berfformiad a rheolaeth ariannol a gynhyrchir gan y sefydliad ac o waith y Cyngor a'i bwyllgorau. Oherwydd nad yw'r GDC wedi'i ddsbarthu fel corff hyd braich¹, nid oes angen iddo gydymffurfio â *Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Practice 2017*. Serch hynny, rydym yn ystyried yr egwyddorion arfer da a fynegir yn y ddogfen wrth ddatblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu. Nodir ein harferion i sicrhau llywodraethu effeithiol, tryloyw ac atebol yn adran [Effeithiolrwydd y Cyngor](#) yn y datganiad hwn.

Trefniadau Llywodraethu

Mae'r GDC yn gorff corfforedig wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Penodir y 12 aelod o'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, gan y Cyfrin Gyngor. Yn 2020, gadawodd tri Aelod o'r Cyngor eu swyddi a gwnaed tri phenodiad newydd gan y Cyfrin Gyngor. Sicrhawyd y broses ar gyfer y penodiadau hyn gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Rôl y Cyngor yw pennu cyfeiriad strategol y GDC ac, o ystyried y cyd-destun strategol newydd y mae'r sefydliad bellach yn gweithredu ynddo o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, aeth ati i ailystyried ac adnewyddu ei Strategaeth Gorfforaethol ym mis Rhagfyr 2020. Pwrpas y strategaeth yw cysoni'r GDC â chenhadaeth a phwrpas statudol y Cyngor, sicrhau bod systemau yn eu lle i fonitro perfformiad a dal y Tîm Gweithredol i gyfrif, a sicrhau diddwylledd ariannol. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y gall gyflawni ei swyddogaethau orau drwy ddirprwyo rhai materion i is-gyrff (fel y tri phwyllgor anstatudol) neu i mi fel Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Nid yw'r Cyngor yn dirprwyo:

- cymeradwyo'r strategaeth
- gwneud rheolau statudol
- cymeradwyo'r gyllideb a'r cynllun busnes blynyddol
- cymeradwyo'r adroddiad a'r chyfrifon blynyddol ac unrhyw adroddiad sydd angen ei roi gerbron y Seneddau
- dal y Tîm Gweithredol i gyfrif am reoli'r sefydliad.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu a monitro cylch gorchwyl ei bwyllgorau. Mae'r Cyngor a'i bwyllgorau'n gweithredu'n unol â Rheolau Sefydlog a threfniadau clir ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae [datganiadau o fuddiant](#) Aelodau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd.



Pwyllgorau Anstatudol

Yn haf 2020, adolygodd y Cyngor ei fframwaith sicrwydd a diwygiodd Gylch Gorchwyl ei bedwar pwyllgor anstatudol presennol, a nodir uchod. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, penderfynodd y Cyngor ddileu'r Bwrdd Polisi ac Ymchwil ac, o ystyried ei gylch gwaith newydd, cafodd ei ail-enwi'n Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau cofrestredig ac aelodau lleig o'r Cyngor. Yn achos y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, penodwyd aelod annibynnol i'r Pwyllgor hefyd i gynorthwyo ei waith. Rhoddir manylion aelodaeth pob pwyllgor yn yr adran ar Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau'n rhoi diweddariad i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod ac mae pob Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad effeithiolrwydd blynyddol i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, yn crynhoi ei berfformiad yn erbyn ei raglen waith.

O ystyried y pandemig Covid-19 parhaus, o fis Mawrth ymlaen, cynhaliwyd pob cyfarfod pwyllgor yn rhithwir yn 2020.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Prif bwrpas y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) yw darparu sicrwydd i'r Cyngor drwy graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y sefydliad, systemau llywodraethu, rheoli mewnol a rheoli risg y GDC ac adolygu gwasanaethau'r archwilwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys monitro a weithredir y camau a nodir yn adroddiadau'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Bydd yr ARC yn craffu ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer codi pryderon mewn perthynas â thwyll, chwythu'r chwiban ac ymchwiliadau arbennig hefyd.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y prosesau rheoli risg sydd yn eu lle'n ddigonol ac effeithiol. Mae hyn yn golygu adolygu'r Gofrestr Risg Strategol, Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd ei ddatblygu, cael sicrwydd o'r trefniadau rheoli risg gan archwilwyr mewnol ac adolygu statws a thueddiadau'r holl risgiau yn y Gofrestr Risg Strategol. Yn 2020, cafodd y Pwyllgor sesiynau briffio ar y goblygiadau a'r risgiau sy'n codi o ran prydlondeb mewn Addasrwydd i Ymarfer, gwydnwch a hyblygrwydd y sefydliad yn ystod pandemig ac ar effeithiolrwydd Llywodraethu.

Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Rôl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (FPC) yw darparu sicrwydd i'r Cyngor drwy herio a monitro'r tîm gweithredol ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall a gweithio gyda'r tîm gweithredol i ddatblygu setiau data priodol a chymesur fel bo'r Cyngor yn gallu cyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu strategaeth ariannol y GDC, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio tair blynedd treigl a'r cyllidebau, a monitro darpariaeth weithredol y sefydliad yn erbyn y cynlluniau hynny. Mae'n rhoi arweiniad i'r tîm gweithredol hefyd ar faterion gweithredol allweddol fel y strategaeth eiddo, buddsoddi a datblygu technoleg.



Yn ystod 2020, roedd yr FPC yn goruchwyllo'r gwaith o adolygu ac ail-ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio tair blynedd ar gyfer y GDC er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni ei strategaeth gorfforaethol. Roedd yr FPC yn goruchwyllo rheolaeth ariannol y sefydliad hefyd, ar ran y Cyngor, er mwyn gallu parhau i rewi lefelau'r ffioedd cadw blynyddol a godir ar ei gofrestreion. Craffodd y Pwyllgor ar gynigion mewn perthynas â thalu'r ffi gadw flynyddol drwy randaliadau, ffyrlo, Addasrwydd i Ymarfer a Dangosyddion Perfformiad Allweddol Datblygu Sefydliadol a chynnal cyfres o gyfarfodydd craffu ar y gyllideb mewn hinsawdd gyfnewidiol ac ansicr.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu

Prif ddiben y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu (RemNom) sydd newydd ei greu yw rhoi sicrwydd i'r Cyngor drwy graffu ar y polisi gwobrwyo ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, y Tîm Rheoli Gweithredol, Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Cadeirydd), Aelodau Annibynnol pwyllgorau anstatudol a deiliaid swyddi Cyswllt penodol. Mae'r Pwyllgor yn craffu hefyd ar y broses o benodi ac arfarnu'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Cadeirydd) ac Aelodau Annibynnol pwyllgorau anstatudol. Mae'n craffu hefyd, ar ran y Cyngor, ar y trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

Yn ystod 2020, cynghorodd y Pwyllgor ar ddatblygiadau i Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y GDC a goruchwyllo'r prosesau recriwtio arfaethedig ar gyfer tri Aelod newydd o'r Cyngor a'r broses ailbenodi ar gyfer tri Aelod presennol. Bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar y dull arfaethedig o recriwtio Aelod arall o'r Cyngor a Chadeirydd newydd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020.

Bwrdd Polisi ac Ymchwil

Goruchwyliodd y Bwrdd Polisi ac Ymchwil (PRB) y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth, polisi a mentrau ymchwil gan adrodd arnynt i'r Cyngor. Cyfarfu'r Bwrdd ym mis Ionawr 2020 i drafod y tirlun polisi yn gynnar yn 2020 a'i rôl yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad o'i fframwaith sicrwydd, penderfynodd y Cyngor ddileu'r PRB ym mis Mehefin 2020.

Pwyllgor Sicrhau Panelwyr Statudol

Yn ogystal â'r pwyllgorau anstatudol uchod, mae'r Cyngor wedi ymarfer y pŵer i sefydlu pwyllgor penodiadau sef y Pwyllgor Sicrwydd Panelwyr Statudol (SPC). Fel Pwyllgor wedi'i sefydlu o dan Orchymyn Rheolau (Cyfansoddiad Pwyllgorau) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2009, mae'n cynorthwyo'r Cyngor gyda phenodiadau i unrhyw un o bwyllgorau statudol y Cyngor, fel y paneli Addasrwydd i Ymarfer. Yn ystod 2020, goruchwyliodd y Pwyllgor y rhaglen fewnol i recriwtio panelwyr statudol a chadarnhaodd benodiad 52 o banelwyr newydd ym mis Medi 2020 ac ailbenodi 51 o banelwyr ym mis Mawrth 2020. Fel y nodir uchod, penododd y Cyngor Syr Ross Cranston FBA yn Gadeirydd, a phenododd Serbjit Kaur MBE, HHJ Philip Sycamore a Carol Ashton i'r Pwyllgor o 1 Ionawr 2021 ymlaen.



Effeithiolrwydd y Cyngor

Yn 2019 comisiynodd y Cyngor sefydliad allanol i gynnal Adolygiad Effeithlonrwydd Bwrdd o'r Cyngor a'i bwyllgorau anstatudol. Nododd y cyngorwyr allanol eu bod wedi gweld sawl elfen o arfer da mewn perthynas â llywodraethu ac arwain y GDC a thynnodd sylw at y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn hyn o beth. Nodwyd amrywiaeth o ffactorau cadarnhaol (megis Cyngor ymroddedig a chydlynol iawn, Cadeirio rhagorol, defnydd da o bwyllgorau'r Cyngor yn y fframwaith sicrwydd, ymateb agored a thryloyw i her gan y Prif Weithredwr a her a thrafodaeth effeithiol i lunio strategaeth y sefydliad) a meysydd i'w datblygu, a amlygwyd mewn cyfres o argymhellion. Yna gweithiodd y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor i weithredu argymhellion yr adolygiad hwnnw gydol 2020. Cafodd yr argymhellion hyn eu grwpio'n feysydd thematig: adolygu a diwygio cydbwysedd busnes y Cyngor, gwerthuso a datblygu Aelodau'r Cyngor, adolygu strwythurau pwyllgorau, gwella Llywodraethu a gwella pwyllgorau.

Roedd uchafbwyntiau allweddol y gwaith hwn yn cynnwys datblygu dull gweithredu, gyda Chadeirydd y Cyngor, i sicrhau bod cymaint o fusnes â phosibl yn cael ei glywed yn sesiwn gyhoeddus y Cyngor ac i ddileu dyblygu rhwng cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd caeedig. Cafwyd adborth manwl gan Aelodau'r Cyngor ar effeithiolrwydd cyfarfodydd y Cyngor ac mae'r adborth hwn yn llywio gwaith gwella parhaus. Ymgymrodd Aelodau'r Cyngor ag archwiliad sgiliau gan ddefnyddio hunanasesiad a chafodd dadansoddiad o gryfderau'r Bwrdd a bylchau sgiliau eu cynnal a'u cyflwyno i'r Cyngor ym mis Mehefin 2020. Cafodd dull diwygiedig o arfarnu'r Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Medi 2020. Mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Cyngor, y Prif Weithredwr a Chadeiryddion Pwyllgorau, cafodd Cylch Gorchwyl holl bwyllgorau anstatudol y Cyngor eu hadolygu a'u hadnewyddu yn ystod haf 2020. Mewn perthynas â'r fframwaith sicrwydd, datblygwyd dull adrodd sicrwydd newydd gyda Chadeiryddion Pwyllgorau, a chymeradwywyd hyn gan y Cyngor ym mis Medi 2020. Cynhaliwyd adolygiad llai manwl o Reolau Sefydlog y Cyngor ym mis Mehefin 2020 a chymeradwyodd y Cyngor ddiwygiadau iddynt er mwyn hwyluso mwy o ystywythder o ran gwneud penderfyniadau drwy ohebiaeth. Bwriedir cynnal adolygiad llawnach o'r Rheolau Sefydlog hyn yn 2021. Lle y bo'n bosibl, mae'r amserlen cyfarfodydd ar gyfer 2021 wedi symud i gylich adrodd chwarterol ac mae cyfarfodydd ychwanegol, lle bo angen, wedi'u cynllunio i ymdrin â busnes allweddol.

Mewn perthynas â gwella Llywodraethu, ail-strwythurwyd y tîm Llywodraethu erbyn mis Mehefin 2020, cafodd pecyn meddalwedd Board Portal newydd ei gaffael a'i weithredu – sydd wedi symleiddio'r broses o reoli papurau'r Bwrdd a gwella profiad y defnyddiwr – a datblygwyd templedi newydd ar gyfer papurau, agendâu, cofnodion ac adroddiadau perfformiad. Cymeradwywyd cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraethu gan y Cyngor ac mae cylch blaengynllunio gwaith 12 mis wedi'i ddatblygu a'i weithredu. Cymeradwyodd y Cyngor gynllun newydd o ddirprwyaethau'r Cyngor ym mis Hydref 2020 hefyd a gwnaed Rheolau newydd i weithredu'r cynllun hwn.

Yn ogystal, ym mis Gorffennaf 2020 ac yn dilyn gwaith craffu gan yr FPC, cymeradwyodd y Cyngor adroddiad perfformiad integredig newydd i alluogi'r Cyngor i ymgysylltu â dull strategol lefel uwch o oruchwylio perfformiad. Rhoddwyd system rheoli risg a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd ar waith hefyd, gyda goruchwyliaeth gan yr ARC, ac mae adroddiadau risg wedi'u diwygio i gynnwys datganiad o sicrwydd ar gyfer pob risg.

Mae'r dasg o barhau i weithredu'r gwaith gwella ar y trywydd iawn i gyflawni, yn ôl y bwriad, yr holl argymhellion erbyn mis Rhagfyr 2021.



Ystyriwn yr arferion llywodraethu gorau wrth adolygu pa mor effeithiol yw'r Cyngor. Mae'r Cadeirydd yn parhau i adolygu pob cyfarfod ar ei ddiwedd gydag aelodau a'r tîm gweithredol, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd arfarnu blynyddol gydag aelodau a'r Prif Weithredwr.

Cofnodir presenoldeb aelodau'r Cyngor yn y cofnodion, sydd ar gael i'r cyhoedd. Rhoddir tabl presenoldeb yn yr adran ar Strwythur y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Trosolwg y Cyngor o Risgiau Strategol

Mae'r Cyngor yn monitro risgiau strategol ac yn derbyn diweddariad i'r Gofrestr Risg Strategol (SRR) ym mhob cyfarfod. Mae'r SRR yn cael ei hadolygu a'i hargymell i'w chymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) ac yna'n cael ei hadolygu a'i hargymell i'w chyflwyno i'r Cyngor gan yr ARC. Mae'r ARC yn gweld Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd sydd newydd ei greu i lywio'r gwaith o graffu ar risgiau strategol.

Mae'r SRR yn cael ei chylchredeg i'r Cyngor yn syth yn dilyn argymhelliad yr ARC i sicrhau bod y Cyngor yn gallu bwrw golwg brydlon dros yr holl risgiau strategol, y fframwaith o fesurau lliniaru a'r sicrwydd i gefnogi effeithiolrwydd y mesurau lliniaru. Mae unrhyw ddatblygiadau risg strategol sy'n codi rhwng cylchredeg yr SRR a dyddiad cyfarfod y Cyngor yn cael eu cyflwyno fel diweddariad i'r risgiau strategol yn y cyfarfod.

Ymhlith pethau eraill, mae'r SRR yn caniatáu i'r Cyngor asesu i ba raddau y mae risgiau strategol yn cael eu lliniaru drwy fesurau effeithiol, adnabod y rhai nad yw'r Cyngor yn barod i'w derbyn a phenderfynu sut y mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn y trothwyon posibiliadau risg a bennir gan y Cyngor. Pan gyflwynir y gofrestr i unrhyw fforwm, fe'i rhoddir mewn cyd-destun gan bapur rheoli risg sy'n amlgu'r prif bryderon, unrhyw danberfformiad ynghyd â phroblemau newydd neu segur.

Mae'r dogfennau risg hyn, y mae'r Cyngor yn craffu arnynt, yn rhoi gwybodaeth sy'n helpu i gynorthwyo a thywys penderfyniadau, monitro cynnydd yn erbyn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a helpu i ddal y Tîm Gweithredol i gyfrif am berfformiad y sefydliad.

Islaw'r SRR, i sicrhau ei bod yn gyflawn a bod yr holl risgiau ynnddi'n rhai gwirioneddol strategol, mae gan bob Cyfarwyddiaeth gofrestr o risgiau gweithredol (ORR). Mae'r cofrestr ORR hyn wedi eu his-gategoreiddio yn ôl tîm, yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n fisol ac yn cael eu cyflwyno i'r SLT ar gyfer craffu'n flynyddol o leiaf.

Mae'r holl risgiau, p'un ai'n strategol neu'n weithredol, wedi eu cysoni â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei archwaeth risg strategol yn flynyddol. Dechreuodd y broses hon ym mis Hydref 2020 ac fe'i cwblhawyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r holl risgiau gweithredol a strategol wedi'u halinio'n briodol â'r archwaeth risg presennol.



Datgelu'r prif risgiau a'r elfennau o ansicrwydd:

Ar ddiwedd 2020, roedd yr SRR wedi'i phoblogi gyda naw risg strategol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Newidiadau cyfansoddiadol neu ansicrwydd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, gan gynnwys y posibilrwydd y collir y Gyd-gydabyddiaeth o Gymwysterau Proffesiynol (MRPQ).
- Gweithio cynhyrchiol, effeithiol a chynaliadwy yng ngoleuni COVID 19 a chyfyngiadau cysylltiedig a chanllawiau'r Llywodraeth.
- Risgiau ariannol, sy'n deillio o'r hinsawdd ariannol ansicr a achoswyd gan Covid-19, sy'n gysylltiedig â chasglu Ffi Gadw Flynyddol deintydd a gweithiwr gofal deintyddol yn llawn ac yn amserol.
- Taith gadarn a phrydlon ein hachosion drwy brosesau Addasrwydd i Ymarfer.
- Risgiau'n ymwneud â chynnal safonau PSA.

Gwasanaethau Archwilwyr Mewnol

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol annibynnol y GDC gan Mazars LLP yn 2020. Cafodd cynllun archwilio mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2020, wedi'i ddatblygu gyda Mazars, ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020. Cafodd 10 archwiliad mewnol eu cynnal yn 2020, naw ohonynt yn aseiniadau sicrwydd.

Yn dilyn pob aseiniad archwilio mewnol, gwnaed argymhellion i wella naill ai gynllun y fframwaith mesurau rheoli, neu i gymhwysu'r fframwaith mesurau rheoli, a gategoreiddiwyd naill ai fel argymhellion sylfaenol, sylweddol neu gadw tŷ. Yn dilyn cytuno ar yr argymhellion hyn, aseiniwyd swyddog i fod yn gyfrifol am weithredu pob argymhelliad a chytunwyd ar ddyddiad gweithredu. Amrywiodd canfyddiadau sicrwydd archwilio rhwng tair lefel sicrwydd bosibl: sicrwydd sylweddol, sicrwydd digonol a sicrwydd cyfyngedig.

Barn archwilio mewnol gyffredinol Mazars, ar sail gwaith a wnaed yn 2020, oedd bod ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli mewnol yn sylweddol o ran eu digonolrwydd a'u heffeithiolrwydd cyffredinol. Yn gyffredinol, mae risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Roedd y farn gyffredinol hon yn seiliedig ar saith aseiniad archwilio mewnol unigol a gafodd sicrwydd sylweddol a dau a gafodd sicrwydd digonol. Ni wnaed unrhyw argymhellion sylfaenol.

Mae system ganolog o dracio gweithredu argymhellion archwilio mewnol yn ei lle gennym. Mae'r argymhellion yn cael eu tracio a chadarnhad yn cael ei geisio gan berchnogion yr argymhellion ynghylch eu statws a phryd y cyrhaeddir eu dyddiad gweithredu. Adroddwyd ar berfformiad gweithredu'r argymhellion i'r SLT a'r ARC gydol y flwyddyn.

Y Tîm Rheoli Gweithredol

Cefnogir y Cyngor gan staff, wedi eu harwain gan Ian Brack, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Gweithredol (EMT) a'r Uwch-dîm Arwain (SLT) ehangach.

Y Cyngor sy'n penderfynu ar y strategaeth a pholisi ynghyd â chanlyniadau ac allbynnau'r GDC er mwyn cyflawni ei bwrpas a'i werthoedd. Mae hyn yn golygu mai'r Prif Weithredwr a'r EMT sy'n gyfrifol am sut y cyflawnir y canlyniadau a'r allbynnau hynny. Yn fy rôl fel Prif Weithredwr, rwyf yn atebol i'r Cyngor am berfformiad y Tîm Rheoli Gweithredol.



Mae'r EMT yn gyfrifol am:

- Weithredu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor.
- Cyllidebu a chynllunio busnes.
- Cyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau'r Cyngor ar faterion o fewn eu cylchoedd gwaith.
- Nodi ac adrodd ar risgiau strategol i'r Cyngor a sicrhau bod perchnogaeth pob risg yn cael ei dyrannu i bobl ar y lefel iawn, gydag atebolrwydd clir.

Yn ystod 2020, mae'r EMT wedi cyfarfod yn ffurfiol o leiaf unwaith y mis ac, yn ystod y pandemig COVID-19, yn amlach. Ers mis Mawrth 2020, mae holl gyfarfodydd Bwrdd yr EMT wedi'u cynnal yn rhithwir. O ystyried yr angen am fwy o ystwythder o ran gwneud penderfyniadau yn amgylchedd y pandemig, mae'r Uwch Dîm Arwain (SLT) ehangach wedi cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd Bwrdd yr EMT drwy sylwadau a ddarparwyd drwy ohebiaeth. Mae'r SLT yn cynnwys uwch-benaethiaid gweithredol a strategol sy'n gyfrifol am roi cymorth i'r EMT gyda gwneud penderfyniadau ar weithredu'r strategaeth a chyflwyno adroddiadau rheoli rheolaidd. Mae'r SLT yn goruchwyllo'r gofrestr risg weithredol hefyd fel y disgrifiwn yn y datganiad hwn. Cyfarfu'r SLT yn rheolaidd gydol 2020 i drafod diweddariadau gweithredol allweddol a rhannu dysgu gydol cyfnod y pandemig.

Mae'r SLT yn cynnwys y Penaethiaid: Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Rhaglen Polisi ac Ymchwil y GDC, Datblygu Sefydliadol a Chynhwysiant, Dilyniant Achosion Addasrwydd i Ymarfer, Dyfarniadau, Gweithrediadau Cofrestru, Llywodraethu, TG, Gwasanaethau Pobl, Gwasanaeth Cyngori Cyfreithiol Mewnol, Cyllid a Chaffael, a Chofrestru.

Yn 2020, roedd cylchoedd gwaith y Cyfarwyddwyr Gweithredol fel a ganlyn:

Cyfarwyddwr Gweithredol, Pontio Addasrwydd i Ymarfer: Tom Scott (tan fis Gorffennaf 2020)

Cyfarwyddwr Gweithredol Interim, Addasrwydd i Ymarfer: John Cullinane (o fis Gorffennaf 2020)

Gweithredu canfyddiadau'r adolygiad Addasrwydd i Ymarfer, gwaith achos, dyfarniadau, addasrwydd i ymarfer, y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol: Sarah Keyes

Gwasanaethau Pobl, datblygu sefydliadol, amrywiaeth a chynhwysiant, datblygu pobl a chyfathrebu mewnol.

Cyfarwyddwr Gweithredol, Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol: Gurvinder Soomal

Cofrestru, Gweithrediadau Cofrestru, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyllid a Chaffael, Darparu Prosiectau, Cynllunio Busnes a PMO, TG, Rheoli Risg ac Archwilio Mewnol a Chyfleusterau.

Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth: Stefan Czerniawski

Datblygu strategaeth a pholisi, ymgysylltu a chyfathrebu allanol, sicrhau ansawdd ymchwil ac addysg.

Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyfreithiol a Llywodraethu: Lisa Marie Williams

Gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, llywodraethu.



Gwybodaeth Reoli ac Adrodd ar Berfformiad

Yn 2019, disgrifiwyd ein hamcanion corfforaethol, strategol a rheoliadol ynghyd â'r adnoddau angenrheidiol, canlyniadau disgwylledig, a ffactorau eraill sy'n cyfrannu at fodloni'r amcanion, mewn strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer 2020 tan 2022 a Chynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio tair blynedd. Ymgynghorwyd ar y cynlluniau hyn â'n rhanddeiliaid allweddol yn 2019 a chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor, ynghyd â gostyngiad i'r ffi gadw flynyddol, ym mis Hydref 2019.

Yn dilyn y pandemig Covid-19, aeth y GDC ati i ailystyried ei Gynllun Corfforaethol Wedi'i Gostio ac ail-flaenoriaethu ei bortffolio prosiectau i gyd-fynd â'r amgylchedd sydd wedi newid. Yna, ym mis Hydref 2020, cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ar gyfer 2021-2023 a chyllideb is ar gyfer 2021.

Cafodd y ddarpariaeth yn erbyn y Cynllun Corfforaethol wedi'i Gostio ei monitro gydol 2020 gan yr SLT a'r EMT gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gerdyn sgorio cytbwys. Adroddwyd am gynnydd i'r Cyngor a'r FPC yn chwarterol. Adolygwyd statws Rhaglen a Phrosiect hefyd ac, ynghyd ag adroddiadau rheoli risg, roedd yr adroddiadau hyn yn llywio prosesau cynllunio busnes gweithredol.

Diogelu Gwybodaeth a Thorri Rheolau Data

Llywodraethu Gwybodaeth

Yn 2020, fe wnaethom barhau i ddatblygu a gwella ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth, y ffordd yr ydym yn rheoli a gwaredu gwybodaeth ynghyd ag adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau diogelu data a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf FOI) a Deddf Diogelu Data 2018 (y DPA).

Rydym wedi parhau i sicrhau bod ein staff newydd i gyd yn derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf FOI, y DPA a diogelu data fel rhan o'r rhaglen gynefino gorfforaethol ac roedd holl staff y GDC wedi cwblhau hyfforddiant gloywi diogelu data blynyddol yn ystod y flwyddyn.

Roedd gwaith gwella sylweddol a gwblhawyd yn ystod 2020 yn cynnwys adolygiad o gofnodion electronig a gedwir gan y GDC, diweddariadau i gofnod GDPR Erthygl 30 y GDC o weithgarwch prosesu, dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws y GDC, a gwaith arall i sicrhau bod y GDC yn cydymffurfio â meini prawf gorfodol Pecyn Cymorth Diogelu ac Amddiffyn Data'r GIG (yn 2019 bodlonodd y GDC 51 o 55 o feini prawf gorfodol).

Ar ddiwedd 2020, defnyddiodd y GDC Becyn Cymorth Diogelu ac Amddiffyn Data'r GIG unwaith eto i ddarparu mesur gwrthrychol o'i gydymffurfiaeth â safon ISO27001. O'r 88 o feini prawf perthnasol, bodlonodd y GDC 87 (99%) gyda thystiolaeth i gefnogi'r canfyddiad, a bodlonwyd pob un o'r 44 maen prawf gorfodol perthnasol.

Ceisiadau am wybodaeth

Yn ystod 2020, derbyniwyd cyfanswm o 324 (o gymharu â 364 yn 2019) o geisiadau am wybodaeth gorfforaethol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gwybodaeth bersonol o dan y Ddeddf Diogelu Data, sef ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun neu SARs. Gan amlaf roedd y ceisiadau FOI a dderbyniodd y GDC yn rhai am wybodaeth ystadegol yn ymwneud â gwaith y GDC. Fodd bynnag, yn ystod Chwarter 3 cawsom gynnydd sydyn mewn ceisiadau yn ymwneud â phenderfyniadau yr oedd y GDC wedi'u gwneud yn dilyn y pandemig COVID-19.



Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau yn ymwneud â niferoedd staff ar ffyrlo ac unrhyw hawliadau a wnaed gan y sefydliad i CThEM yn hyn o beth, penderfyniad y Cyngor i beidio â gostwng y Ffi Gadw Flynyddol ac ystyriaethau'r Cyngor ar gyflwyno dull o dalu'r Ffi Gadw Flynyddol drwy randaliadau. Cafwyd ceisiadau hefyd ar wariant arall y GDC.

Gwnaethom ymateb i 329 o geisiadau am wybodaeth, gyda 222 ohonynt yn geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a 107 yn geisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y gwaith treigl o 2019. Roedd hyn yn gynydd ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt yn 2019 (182) a gostyngiad mewn ceisiadau SAR (185). Ymatebwyd i 98% o'r ceisiadau FOI (217) o fewn yr amserlen statudol (20 diwrnod gwaith) neu hawliwyd estyniad priodol er mwyn gallu gwneud prawf budd y cyhoedd. Ymatebwyd i 96% o'r ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun (103) o fewn yr amserlen statudol (30 diwrnod calendr) neu hawliwyd estyniad priodol.

O'r 329 o geisiadau am wybodaeth y gwnaethom ymateb iddynt yn 2020, apeliwyd yn erbyn dau ymateb Rhyddid Gwybodaeth ac un ymateb SAR i'r Comisiynydd Gwybodaeth (tri yn 2019, dau SARs ac un Rhyddid Gwybodaeth). Rydym yn disgwyl eu hystyriaeth.

Digwyddiadau diogelu data

Yn ystod 2020, rydym wedi parhau i gofnodi, rheoli ac adrodd yn ganolog ar ddigwyddiadau diogelu data. Rydym wedi adrodd a chofnodi pryderon am ddefnyddio, mynediad at a dinistrio data personol gan y GDC, a thrydydd partion lle effeithir ar wybodaeth y GDC. Rydym nid yn unig wedi cofnodi achosion lle digwyddodd rhywbeth ond hefyd 'pethau a fu bron â digwydd' er mwyn gallu dysgu gwersi o hyn. Nid yw'r holl ddigwyddiadau diogelu data a gofnodir yn torri rheolau data personol.

Cofnodwyd 113 o Ddigwyddiadau Diogelu Data yn 2020 (114 yn 2019).

Lle cofnodwyd achosion o dorri data personol, sicrhawyd bod data a gollwyd neu a ddatgelwyd yn amhriodol drwy ddamwain neu gamgymeriad yn cael ei adfer, bod risgiau'n cael eu hasesu ac yr ymatebir iddynt a bod gwersi'n cael eu dysgu fel nad ydynt yn digwydd eto ac i wella ein gwasanaeth.

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau diogelu data eu hadrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO). Dyma'r tro cyntaf ers pedair blynedd nad yw'r GDC wedi atgyfeirio digwyddiad i'r ICO ac mae'n fesur o'r gwelliannau y mae'r GDC wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod hwnnw mewn perthynas â llywodraethu a diogelwch gwybodaeth.

Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, ar ôl ystyried yr holl adroddiadau oedd ar gael i mi, gan gynnwys cyngor allanol, rwy'n parhau'n ffyddiog bod system rheoli risg a mesurau rheoli mewnol y Cyngor yn effeithiol i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i barhau i gefnogi polisiâu, nodau ac amcanion y GDC.



7. Adroddiad taliadau a staff

Archwilir elfennau ariannol yr adroddiad hwn gan yr archwilwyr allanol, Haysmacintyre, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

Adroddiad taliadau

Polisi taliadau Aelodau'r Cyngor

Mae'r Pwyllgor Taliadau ac Enwebu yn craffu ar gydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Cyngor a'r Cadeirydd. Pennir taliadau cydnabyddiaeth gan ddefnyddio data sydd ar gael o bob marchnad gymharol ar gyfer y cyfraddau presennol ar gyfer swyddi tebyg ac ymrwymadau amser ar gyfer cyflawni'r rôl.

Adolygwyd tâl Aelodau'r Cyngor gan y Pwyllgor Taliadau ac Enwebu ym mis Gorffennaf 2020. Cytunodd y Pwyllgor i gadw lefel bresennol cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r cyngor, a chefnogwyd y penderfyniad hwn gan y Cyngor ym mis Medi 2020. Bydd Polisi Taliadau Aelodau'r Cyngor yn cael ei adolygu nesaf yn 2022.

Mae tâl y Cadeirydd wedi'i bennu ar gyfradd o £55,000 y flwyddyn ar sail ymrwymiad o 2 ddiwrnod y wythnos ar gyfartaledd.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn tâl blyneddol o £15,000, ar sail ymrwymiad o 36 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae tâl ychwanegol blyneddol o £3,000 yn cael ei dalu i Gadeiryddion Pwyllgorau.

Polisi taliadau'r Tîm Rheoli Gweithredol

Diwygiwyd polisiau cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn ystod 2020 ac, yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebu, fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020. Nid yw'r polisiau'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau perfformiad.

Mae datblygiad cyflog i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn dibynnu ar berfformiad yr unigolyn a meincnodau tâl allanol ar gyfer rolau cymharol. Er bod y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn cytuno ar y tâl ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, mae'r Pwyllgor Taliadau ac Enwebu'n craffu ar unrhyw gynnydd mewn cyflog, neu mewn taliadau eraill.

Mae unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr (fel a phan y bo'n briodol) yn cael ei argymhell gan Gadeirydd y Cyngor a'r Pwyllgor Taliadau ac Enwebu, a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r polisi taliadau.

O dan gontract cyflogaeth y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i unrhyw rybudd terfynu contract gan y cyflogai neu'r cyflogwr fod yn chwe mis. O dan gontractau'r cyfarwyddwyr gweithredol eraill, mae angen i'r cyflogai neu'r cyflogwr roi rhybudd o dri mis ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau naill ai o adran buddion diffiniedig cynllun pensiwn y GDC, neu o'r cynllun ymddiriedolaeth meistr.



Polisi taliadau staff

Mae'r polisi taliadau staff yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, a'r cyfarwyddwyr gweithredol. Mae'r polisi'n cael ei ddatblygu drwy ystyried sefyllfa'r GDC i ddarparu ymagwedd dryloyw, gynaliadwy a theg at ein fframwaith gwobrwyo i ddenu a chadw pobl o safon uchel fel bo'r GDC yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau strategol a chyflawni ei gylch gwaith a'i gyfrifoldebau statudol.

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o dalu cyflogau cyfartal am waith o werth cyfartal i'n holl weithwyr gyda'r nod o sicrhau bod ein systemau tâl yn deg a diduedd. Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynnal adolygiadau cyflog cyfartal i ddileu unrhyw fwlch cyflog na ellir ei egluro ar seiliau gwrthrychol, ac adroddwn ar hyn i'r cyhoedd bob blwyddyn

Ffioedd a threuliau Aelodau'r Cyngor (yn amodol ar archwiliad)

	2020				2019			
	Ffioedd £000	Treuliau budd mewn nwyddau £000	Treth ac Yswiriant Gwladol £000	Cyfan- swm £000	Ffioedd £000	Treuliau budd mewn nwyddau £000	Treth ac Yswiriant Gwladol £000	Cyfan- swm £000
William Moyes Cadeirydd Lleyg y Cyngor	55	6	6	67	55	13	13	81
Terry Babbs Aelod Lleyg o'r Cyngor	18	1	-	19	18	1	1	20
Catherine Brady Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	15	-	-	15	15	1	1	17
Donald Burden (O 1 Hydref 2020) Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	5	-	-	5	-	-	-	-
Geraldine Campbell (Tan 30 Medi 2020) Aelod Lleyg o'r Cyngor	14	3	1	18	18	5	2	25
Anne Heal Aelod Lleyg o'r Cyngor	15	-	-	15	15	1	-	16
Jayanthi John Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	15	-	-	15	15	1	1	17
Margaret Kellett (Tan 30 Medi 2020) Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	11	1	1	13	15	2	1	18
Sheila Kumar Aelod Lleyg o'r Cyngor	15	-	-	15	15	-	-	15
Michael Lewis (O 1 Hydref 2020) Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	4	-	-	4	-	-	-	-
Caroline Logan Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	15	-	-	15	15	3	1	19
Kirstie Moons (Until 30 September 2020) Registrant Council member	14	1	1	16	18	4	2	24
Simon Morrow Aelod Cofrestredig o'r Cyngor	15	1	1	17	15	5	6	26
Laura Simons (O 1 Hydref 2020) Aelod Lleyg o'r Cyngor	5	-	-	5	-	-	-	-
Crispin Passmore Aelod Lleyg o'r Cyngor	18	1	-	19	18	1	1	20



Treuliau budd mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol treuliau budd mewn nwyddau'n cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gennym ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn net o dreth a thelir y symiau treth i Gyllid a Thollau EM. Roedd eitemau yn y categori hwn yn cynnwys costau teithio a wariwyd ar fusnes y Cyngor.

Taliadau'r Tîm Rheoli Gweithredol (yn amodol ar archwiliad)

Rhoddir manylion y taliadau a ddatgelwyd ar gyfer y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu yn llawn isod. Mae'r tabl hefyd yn datgelu enillion trethadwy, taliadau eraill (ac eithrio unrhyw daliadau iawndal lle'r oeddent yn ddyledus) a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr, mewn bandiau cyflog ar gyfer aelodau eraill y Tîm Rheoli Gweithredol yn 2020 (a gwybodaeth gymharol ar gyfer 2019).

	2020				2019			
	Cyflog £000	Cyfraniad Cyflogwr at bensiwn £000	Bonws £000	Cyfanswm £000	Cyflog £000	Cyfraniad Cyflogwr at bensiwn £000	Bonws £000	Cyfanswm £000
Ian Brack Prif Weithredwr a Chofrestrydd	140-145	14	-	150-155	140-145	13	-	150-155
Stefan Czerniawski (O 14 Hydref 2019) Cyfarwyddwr Gweithredol – Strategaeth (Cyfwerth â blwyddyn lawn)	115-120	10	-	125-130	25-30 (115- 120)	1 (7)	-	25-30 (125-130)
Roberta Davis (Tan 28 Mehefin 2019) Cyfarwyddwr Gweithredol - Datblygu Sefydliadol (Cyfwerth â blwyddyn lawn)	-	-	-	-	65-70 (120- 125)	6 (12)	-	70-75 (130-135)
Matthew Hill (Tan 19 Awst 2019) Cyfarwyddwr Gweithredol – Strategaeth (Cyfwerth â blwyddyn lawn)	-	-	-	-	75-80 (120- 125)	4 (7)	-	80-85 (135-130)
Sarah Keyes (o 1 Hydref 2019) Cyfarwyddwr Gweithredol – Datblygu Sefydliadol (Cyfwerth â blwyddyn lawn)	115-120	12	-	130-135	25-30 (115- 120)	3 (12)	-	30-35 (130-135)
Thomas Scott (Tan 30 Mehefin 2020) Cyfarwyddwr Gweithredol – Pontio Addaswydd i Ymarfer (cyfwerth â blwyddyn lawn) Taliad terfynu	70-75 (120- 125)	6	-	150-155 (130-135)	120-125	12	-	135-140 -
Gurvinder Soomal Cyfarwyddwr Gweithredol – Cofrestru ac Adnoddau Corfforaethol	120-125	27	-	150-155	120-125	30	-	150-155
Lisa Marie Williams Cyfarwyddwr Gweithredol – Cyfreithiol a Llywodraethu	120-125	12	-	135-140	110-115	11	0-5	125-130



Mae Ian Brack yn bersonol wedi dewis peidio â derbyn unrhyw godiadau cyflog ers 2016. Y cyflog ar gyfer rôl y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, pe bai dyfarniadau cyflog wedi eu cymhwyso, yw £160–£165,000. (2019: £160–£165,000).

Derbyniodd y Cyn-gyfarwyddwr Gweithredol, Pontio Addasrwydd i Ymarfer, daliad terfynu o £75,680 ar ôl iddo adael y rôl ar 30 Mehefin 2020. Nid yw cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol cyfwerth â blwyddyn lawn yn cynnwys y taliad terfynu a wnaed.

Ni dderbyniodd yr un o'r Tîm Rheoli Gweithredol unrhyw fonws perfformiad yn 2020.

Lluosrifau cyflog (Yn amodol ar archwiliad)

Roedd band tâl y cyfarwyddwr oedd yn cael ei dalu fwyaf yn 2020, sef y Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, yn £140–£145,000 (2019: £140–£145,000). Roedd hyn 3.7 gwaith (2019: (3.6 gwaith) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, sef £38,445 (2019: £38,987).

Yn 2020 ni chafodd unrhyw gyfloggeion (2019: dim) daliadau uwch na'r cyfarwyddwr oedd yn cael ei dalu fwyaf. Roedd y taliadau'n amrywio rhwng £15–£125,000 (2019: £15–£125,000). Mae'r cyfanswm taliadau'n cynnwys cyflog, lwfansau, bonysau perfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo na chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Pensiynau

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig drwy ymddiriedolaeth gan The People's Pension yw ein prif gynllun pensiwn, sy'n gwneud mwy na bodloni'r gofynion awto-gofrestru. Mae gweithwyr yn cyfrannu 3% o'u cyflog ac mae'r GDC yn cyfrannu 6% (2019: 6%). Mae'r GDC yn cyfrannu'r un faint ag unrhyw gyfraniad ychwanegol gan y gweithiwr hyd at uchafswm cyfraniad cyflogwr o 10%. Ar 31 Rhagfyr 2020, roedd 303 o weithwyr (84%) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig drwy ymddiriedolaeth (31 Rhagfyr 2019: 280, 81%).

Roedd cyfloggeion a ymunodd â'r GDC cyn mis Ionawr 2015 yn gallu ymuno â chynllun pensiwn buddion diffiniedig, ond roedd yn rhaid iddynt wneud hynny cyn mis Gorffennaf 2016. Caewyd y cynllun i aelodau newydd ar 1 Gorffennaf 2016. Mae aelodau o'r cynllun buddion diffiniedig yn cyfrannu 8% o'u cyflog. Cyfraniad y cyflogwr yn ystod 2020 oedd 20.3 y cant (2019: 18 y cant tan 31 Mawrth 2019, a 20.3 y cant o 1 Ebrill 2019 fel y'i pennwyd gan actiwari'r cynllun). Ar 31 Rhagfyr 2020, roedd 37 o weithwyr (10%) yn aelodau o'r cynllun buddion diffiniedig (31 Rhagfyr 2019: 45, 13%).

Ar 24 Mawrth 2021, ar ôl ymgynghori ag aelodau yr effeithir arnynt, penderfynodd y Cyngor gau'r cynllun pensiwn budd diffiniedig i gronni yn y dyfodol o 31 Mawrth 2021. Rydym wedi cadarnhau gydag Actiwari'r Cynllun nad yw'r penderfyniad hwn yn cael unrhyw effaith ar yr atebolrwydd cyfrifyddu ar 31 Rhagfyr 2020 oherwydd cadw cyswllt cyflog y cynllun. Yn y dyfodol, ni fydd unrhyw warged ar y cynllun yn cael ei gydnabod gan na ellir ei wrthbwyso yn erbyn costau gwasanaeth yn y dyfodol.

Rhoddir mwy o wybodaeth am dâl a phensiynau yn nodyn 3 a nodyn 16 i'r Cyfrifon.



Adroddiad staff

Niferoedd staff a manylion enillion

Y nifer cyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, yn ystod y flwyddyn ac yn ôl swyddogaeth oedd:

	Staff a gyflogir yn barhaol		Cyfanswm	
		Eraill	2020	2019
Gwrandawiadau ac Addasrwydd i Ymarfer	79.7	12.8	92.5	106.4
Cofrestru	52.6	6.6	59.1	57.8
Datblygu Sefydliadol	15.9	2.5	18.4	22.5
Cyfreithiol a Llywodraethu	62.6	9.9	72.5	73.5
Strategaeth	33.3	3.8	37.0	36.2
Adnoddau Corfforaethol	69.7	5.1	74.8	68.4
Cyfanswm	313.7	40.6	354.3	364.8

Cyfansoddiad y staff

Mae menywod yn cyfrif am 57% o'r gweithlu (2019: 58%). Mae pobl 50+ oed yn cyfrif am 20% o'r gweithlu (2019: 18%).

Darparwyd data cydraddoldeb ac amrywiaeth nad yw'n orfodol yn wirfoddol gan 84% o'n gweithlu yn ystod 2020 (2019: 82%), sy'n dangos bod 51% (2019: 52%) o'n staff o gefndir gwyn a 33% (2019: 30%) o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Oherwydd y pandemig, ataliodd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) orfodi terfynau amser adrodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2020 (dyddiad ciplun Ebrill 2019).

Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a ddylai fod wedi'i adrodd yn Ebrill 2020 (dyddiad ciplun Ebrill 2019) ar gyfartaledd yn 13.8% (canolrif 23%) o blaid dynion. Fodd bynnag, nid yw'r GDC yn talu taliadau bonws ond mae taliadau fel ein taliadau cydnabyddiaeth, a ddyfernir i gydweithwyr i gydnabod y rhai sydd wedi gweithio y tu hwnt i'r safonau arferol a ddisgwyllir, yn cael eu categorio fel taliadau bonws at ddibenion adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Roedd 5.7% o fenywod ac 11.3% o ddynion yn derbyn taliadau o'r fath rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019 (dyddiad ciplun Ebrill 2019). Ar gyfartaledd, mae'r taliadau bonws 26.29% (canolrif 50%) yn uwch i fenywod nag i ddynion.



Absenoldeb gweithwyr

Anogwn ddiwylliant lle mae presenoldeb da yn ofynnol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, o dro i dro, na ellir osgoi absenoldebau am resymau meddygol.

Ein nod yw trin staff sy'n sâl gyda chydymdeimlad a thegwch, a lle bo hynny'n bosib, drwy roi cymorth i'w helpu i adfer eu hiechyd a mynychu'r gwaith yn rheolaidd. Dibynnwn ar ymyrraeth gynnar ein rheolwyr llinell i gynnal cyfweiliad dychwelyd i weithio ar ôl pob cyfnod o absenoldeb er mwyn lliniaru effaith a rheoli hyn yn effeithiol. Mae'r systemau a ddefnyddir gan reolwyr llinell i helpu i adnabod pan gyrhaeddir pwyntiau ysgogi, ac ystyried a oes angen cymorth neu weithredu pellach, yn cael eu hadolygu fel rhan o'r prosiect systemau Adnoddau Dynol.

Collwyd cyfanswm o 2,156 diwrnod oherwydd salwch yn 2020 (2019: 2,702 diwrnod). Mae hyn yn ostyngiad o 20.2% mewn absenoldeb oherwydd salwch. Collwyd 6.1 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch yn 2020. (2019: 7.4 diwrnod fesul cyflogai). Yn ôl Adroddiad Arolwg Iechyd a Llesiant y CIPD ar gyfer 2020, yr absenoldeb cyfartalog yw 5.8 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2019: 5.9 diwrnod).

Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ffigurau absenoldeb oherwydd salwch 2020, gyda 253 diwrnod wedi'u colli oherwydd COVID-19, roedd hyn yn 21% o'r dyddiau a gollwyd yn 2020. Er gwaethaf hyn, rydym wedi gweld gostyngiad o 20% mewn salwch yn gyffredinol fel sgil-ffaith y cyfyngiadau symud a gweithio gartref.

Trosiant staff

Cyfanswm trosiant staff 2020 oedd 15% (2019:51%). Mae hyn yn cynnwys trosiant naturiol, contractau diwedd cyfnod penodol bwriedig ac unrhyw ddiswyddiadau y cytunwyd arnynt. Roedd cyfanswm trosiant staff yn 2019 yn sylweddol uwch gan ein bod wedi trosglwyddo amryw o swyddogaethau gweithredol i Birmingham o Lundain, fel rhan o'n Rhaglen Ystadau barhaus.

Y trosiant staff naturiol ar gyfer 2020 oedd 9%, o gymharu ag 17% yn 2019.

Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cyfle cyfartal i bawb ac i sicrhau bod ein gweithlu mor amrywiol a chynhwysol â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein penderfyniadau recriwtio, hyfforddi, dyrchafu staff a chyfluoedd mewnol ac allanol yn seiliedig ar allu, cymhwysedd a photensial.

Yn 2020, lansiodd Rhwydwaith REACH – grŵp mewnol ar gyfer staff Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a phartion eraill â buddiant, a arweiniodd ymdrechion y sefydliad i gydnabod a dathlu Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref.

Mae'r rhwydweithiau hyn yn ychwanegol at lansio Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), grŵp o staff sydd â diddordeb arbennig ym maes EDI. Defnyddiwyd yr Hyrwyddwyr EDI i lywio'r gwaith o gwblhau Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â chymryd cyfrifoldeb am gydlynu digwyddiadau staff sydd â'r nod o hyrwyddo amrywiaeth ein gweithlu.

Gyda golwg ar ymgorffori EDI fel busnes fel arfer, mae gwaith helaeth wedi'i wneud ar greu Strategaeth EDI newydd. Lansiodd y strategaeth yn gynnar yn 2021. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu'n helaeth â staff ar draws y busnes ac mae wedi derbyn mewnbwn gan y Pwyllgor Taliadau a'r Cyngor.



Ymgysylltiad staff

Parhaodd y gwaith yn 2020 ar y camau gweithredu a nodwyd yn arolwg staff ar raddfa fawr 2019. Rydym wedi cynnal arolygon ymgysylltu â staff drwy arolygon pwls chwarterol ar raddfa fach. Mae'r rhain wedi ein galluogi i gasglu data perthnasol a chynrychiadol y gallwn weithredu'n uniongyrchol ac yn gyflym arno, ar lefel gorfforaethol ac o fewn Cyfarwyddiaethau. Defnyddiwyd cwestiynau craidd ar draws chwarteri i olrhain tueddiadau dros amser, ac mae cwestiynau wedi'u targedu wedi'u cyflwyno bob chwarter, yn benodol i'r gwaith neu'r heriau yn ystod y cyfnod hwnnw ac maent wedi bod o werth arbennig yn ystod y pandemig.

Yn ogystal â'r arolygon pwls chwarterol, cynhaliwyd arolwg penodol o'r holl staff i gasglu barn ar weithio o bell ac effeithiau gweithio gartref. Galluogodd grwpiau ffocws dilynol fewnbwn gan amrywiaeth eang o staff i lywio ein dull o weithio'n hyblyg yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

Roedd yr angen i weithio o bell yn gofyn i ni addasu ein dull o gyfathrebu â staff. Dywedodd adborth gan staff wrthym fod cyfathrebu rheolaidd a dibynadwy yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, a defnyddiwyd negeseuon e-bost diweddar dyddiol gan aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol i gyfleu gwybodaeth weithredol bwysig, yn ogystal â negeseuon ynghylch llesiant staff. Lle y bo'n bosibl ac yn ymarferol, rydym wedi symud ein gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb i ofod rhithwir. Mae Microsoft Teams wedi dod yn blatfform ar gyfer sefydlu, datblygu staff a digwyddiadau ymwybyddiaeth, yn ogystal â galluogi staff i ddod at ei gilydd mewn lleoliadau cymdeithasol.

Rydym wedi cyflawni gwelliannau i'n mewnwyd er mwyn gallu newid y ffordd mae gwybodaeth a chyfathrebu arbennig yn cael eu cyflwyno a'u hyrwyddo.

Iechyd a Diogelwch yn y gwaith

Gweledigaeth ac ymrwymiad y GDC i Iechyd a Diogelwch yw cynnal a hyrwyddo amgylchedd iach sy'n rhydd o niwed. Adolygwyd Aelodaeth a Chylch Gorchwyl Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y GDC yn ystod 2020, a chawsant eu gwella i sicrhau'r Tîm Rheoli Gweithredol bod rhwymedigaethau deddfwriaethol y sefydliad yn cael eu bodloni. Y rhwymedigaethau hynny yw diogelu iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. Diwygiwyd Polisi Iechyd a Diogelwch y GDC yn 2020 hefyd.

Yn ystod y flwyddyn, adroddwyd ar un ddamwain o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR) (2019: dim) a chofnodwyd tri mân ddigwyddiad ar draws y ddau safle (2019: 8). Roedd un o'r rhain yn ddigwyddiad o salwch, ac un yn ddamwain tra'n gweithio gartref. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio gartref ers mis Mawrth 2020, yn unol â chynghor y Llywodraeth i weithio gartref os yn bosibl yn ystod y pandemig.

Mae ein safle mewnwyd 'Thriving at Work' yn rhoi cronfa sylweddol o adnoddau i staff a rheolwyr i hyrwyddo gwydnwch a llesiant. Rydym wedi cynyddu ein grŵp o 13 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig, sydd wedi bod o gryn werth i staff yn ystod y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer Rhaglen Cymorth i Weithwyr sydd wedi'i chyfathrebu'n weithredol i'r staff.



Gwariant ar ymgynghorwyr

Nid ydym yn defnyddio ymgynghorwyr i lenwi swyddi gweithwyr parhaol. Mae swyddi'r holl staff wedi eu llenwi naill ai gan weithwyr parhaol, cyfnod penodol neu ar secondiad, neu (ar gyfer anghenion tymor byr) gan weithwyr o asiantaethau cyflogaeth.

Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws

Effeithiwyd yn ddifrifol ar rai meysydd penodol o weithrediadau'r GDC o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gyda'r canlyniad nad oedd gan rai cyflogeion waith i'w wneud neu eu bod yn cael eu hatal rhag gweithio mewn amgylchiadau personol am gyfnod. Ein nod bob amser yw sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran ein gweithrediadau i sicrhau nad yw'r baich hwnnw'n drymach nag sydd ei angen ar Gofrestreion – ac roedd hyn yn arbennig o bwysig y llynedd gan fod rhai cofrestryddion wedi profi effeithiau negyddol sylweddol oherwydd COVID-19.

Nododd y Cyngor fod Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y llywodraeth yn berthnasol i staff na fyddai sefydliad yn eu cadw mewn cyflogaeth fel arall (am eu bod yn ddiangen dros dro) nac yn eu talu ar gyfradd lawn (oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu a oedd yn eu hatal rhag gweithio'n llawn amser neu o gwbl). Roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r cynllun ffyrlo at y diben a fwriadwyd - i ddiogelu swyddi pobl a fyddai'n debygol o gael eu diswyddo fel arall. Mae ein defnydd o'r cynllun yn cydymffurfio'n llawn â gofynion CThEM.

Yn ystod y cyfnod rhwng 18 Mai 2020 a 31 Gorffennaf 2020, rhoddwyd 30 o weithwyr ar absenoldeb ffyrlo gyda chyfanswm y grant a hawliwyd am y cyfnod yn £101,000.

Iawndal am golli swydd

Gadawodd 12 o staff o dan delerau diswyddo gorfodol yn 2020. Talwyd pecynnau iawndal gwerth rhwng £3,581 a £61,510 iddynt. Mae'r tabl isod yn nodi'r holl daliadau diswyddo gorfodol a wnaed yn 2020, fesul band cost.

Cost bandiau gadael	2020 Nifer yr ymadawiadau	2019 Nifer yr ymadawiadau
<£10,000	5	42
£10,000 - £25,000	5	31
£25,000 - £50,000	1	10
£50,000 - £75,000	1	-
Cyfanswm y pecynnau ymadael	11	83
Cyfanswm cost / £	197,149	1,145,404

Ian Brack, Prif Weithredwr, Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu

24 Mehefin 2021



8. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig

Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Deityddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 o dan Ddeddf Deityddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am y Llifoedd Arian, y Datganiad am Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddyn nhw. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn unol â phenderfyniad y Cyfrin Gyngor.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Deityddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2020 ac o'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Ddeddf Deityddion 1984 a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISAs) (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau a restrir. Rwyf yn annibynnol ar y Cyngor Deityddol Cyffredinol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.



Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyngor Deityddol Cyffredinol o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Deityddol Cyffredinol i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr ynghylch busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer y Cyngor Deityddol Cyffredinol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Safonau Cyfrifo Rhyngwladol, yn unol â phenderfyniad y Cyfrin Gyngor sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Atebolwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilydd ar hynny. Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysonderau neu gamddatganiadau tybiedig o bwys, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Barn am faterion eraill

IYn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd wrth gynnal yr archwiliad:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Atebolwydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â phenderfyniadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deityddion 1984; a
- mae'r wybodaeth yn y Dadansoddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.



Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Gan ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i gyd-destun a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, y byddaf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM wedi cael eu datgelu; neu
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor a'r Prif Weithredwr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad
- asesu gallu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyrw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes byw oni bai fod y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn rhagweld nad yw'n briodol gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Deintyddion 1984.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol o ran a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a bernir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu â'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.



Mae fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor Deityddol Cyffredinol mewn cysylltiad â'r canlynol:
 - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - o canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
 - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Cyngor Deityddol Cyffredinol sy'n ymwneud â Deddf Deityddion 1984, a Gorchymyn 2008 a Gorchymyn Gofal lechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr sy'n Ymarfer) 2009.
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod referniw, a phostio cofnodion anarferol mewn dyddlyfrau.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyngor Deityddol Cyffredinol yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor Deityddol Cyffredinol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau'r Cyngor Deityddol Cyffredinol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Deityddion 1984, a Gorchymyn 2008 a Gorchymyn Gofal lechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr sy'n Ymarfer) 2009, Cyfraith Cyflogaeth, Deddfwriaeth Treth a Deddf Coronafeirws 2020.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi pa mor briodol yw eitemau dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; a
- wrth roi sylw i'n sicrwydd ynghylch rheoleidd-dra, ystyried unrhyw daliadau arbennig a wnaed yn ystod y flwyddyn, unrhyw drefniadau oddi ar y gyflogres, adolygu papurau a chofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac adolygiad cymharol cyffredinol o'r flwyddyn gyfredol hyd at y flwyddyn flaenorol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.



Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a'r trafodion ariannol i gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoel. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Dyddiad 1 Gorffennaf 2021



9. Adroddiad yr archwilydd annibynnol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (“y Cyngor”) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 sy’n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o’r polisiau archwilio allweddol. Y fframwaith adrodd sydd wedi’i gymhwyso wrth eu paratoi yw’r gyfraith berthnasol ynghyd â’r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) fel y’u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ein barn ni mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar 31 Rhagfyr 2020, ac o’r gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi’n briodol yn unol â safonau IFRS fel y’u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd; ac
- wedi eu paratoi’n unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a’r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor

Sail ein barn

Rydym wedi cyflawni ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (safonau ISA y DU) a’r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau’r Archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i’n barn.

Casgliadau’n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i’r casgliad bod defnydd Aelod y Cyngor o’r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi’i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy’n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Cyngor i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o’r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i’w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Aelodau’r Cyngor sy’n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i’r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac, ac eithrio i’r graddau y nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.



Yng nghyswllt archwilio'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, am ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos yn gamddatganiad perthnasol fel arall. Os gwelwn unrhyw anghysondeb perthnasol o'r fath neu rywbeth sy'n ymddangos yn gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os casglwn, ar sail y gwaith a wnaethom, fod y wybodaeth arall yma'n gamddatganiad sylweddol, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr ydym yn adrodd wrthy ch yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw gan y Cyngor neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na wnaethom ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni blynyddol; neu
- ni wneir rhai datgeliadau am daliadau cydnabyddiaeth a bennir gan y gyfraith; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad

Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol a ystyrir yn angenrheidiol gan Aelodau'r Cyngor fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes hyfyw a gan ddefnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod Aelodau'r Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r Cyngor neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig amgen heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod camddatganiad perthnasol lle mae'n bodoli bob tro. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.



Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Cyngor, nodwyd gennym fod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â Deddf Deintyddion 1984, ac ystyriwyd gennym i ba raddau y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom ystyried hefyd y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol megis y penderfyniad cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol.

Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr ar gyfer ymdrin yn dwyllodrus â'r datganiadau ariannol (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau), a phenderfynwyd bod y risg o gofnodi cofnodion cyfnodolion amhriodol a rhagfarn reoli mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn isel. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu achosion tybiedig o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr sydd â'r nod o atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cyfnodolion, yn enwedig cofnodion cyfnodolion a gofnodwyd naill ai cyn neu wrth baratoi'r datganiadau ariannol a'r rhai sy'n cynnwys rhifau crwn neu rifau â diwedd cyson; a
- Herio tybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau i archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau o dan y Ddeddf a wneir gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gyflawni fel y gallwn ddatgan i Aelodau'r Cyngor y materion hynny sy'n ofynnol i ni eu datgan mewn adroddiad Archwilio ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac Aelodau'r Cyngor fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn na thros y farn a luniwyd gennym.

Haysmacintyre LLP

Archwilwyr Statudol
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

29 Mehefin 2021



Adran Tri: Datganiadau Ariannol

10. Cyfrifon

Cyfrif Incwm a Gwariant

	Nodyn	2020 £'000	2019 £'000
Incwm			
Ffioedd	2	38,114	45,984
Arholiad Cofrestru Tramor	2	422	1,592
Amrywiol	2	174	19
Cyfanswm Incwm Gweithredu		38,710	47,595
Gwariant			
Costau staff	3	19,186	18,654
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	4	4,810	6,762
Cyfarfodydd cyngor a phwyllgorau	5	3,469	5,669
Gweinyddu	6	4,028	3,900
Llety	6	1,085	1,176
Cyfathrebu a Chyhoeddiadau	6	464	474
Cyfanswm Gwariant Gweithredu		33,042	36,635
Gwarged ar ôl gwariant gweithredol		5,668	10,960
Addasiad i gostau treth a nawdd cymdeithasol		-	107
Enillion o werthu asedau		40	-
Incwm buddsoddi	2	345	516
Enillion a wireddwyd/(colledion) o werthu buddsoddiadau	10	(751)	59
Enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiadau	10	2,243	2,080
Gwarged am flwyddyn ar ôl incwm buddsoddi ac addasiad		7,545	13,722
Treth	7	(393)	(273)
Gwarged wedi'i gadw ar ôl trethiant		7,152	13,449
Incwm cynhwysfawr arall			
Eitemau heb eu hailddosbarthu			
Enillion/(colled) actiwaraidd ar asedau cynlluniau pensiwn	16	(5,216)	323
Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall		(5,216)	323
Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		1,936	13,772

Mae'r [nodiadau](#) ar dudalennau 64 i 87 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

	Nodyn	2020 £'000	"Ailddatgan 2019" £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	8	16,322	17,984
Asedau anniriaethol	9	36	154
Asedau ariannol ar werth teg drwy elw neu golled	10	18,996	17,530
Darparu ar gyfer asedau pensiwn	16	373	5,813
Cyfanswm asedau anghyfredol		35,727	41,481
Asedau cyfredol			
Derbyniadau masnachol ac eraill	11	1,071	1,142
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	12	47,420	40,255
Cyfanswm asedau cyfredol		48,491	41,397
Cyfanswm Asedau		84,218	82,878
Rhwymedigaethau cyfredol			
Derbyniadau masnachol ac eraill	13	2,732	3,779
Incwm gohiriedig	13	33,981	33,605
Darpariaethau	15	10	212
Treth gorfforaeth	13	39	109
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		36,762	37,705
Asedau anghyfredol a/llai asedau/rhwymedigaethau		47,456	45,173
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau Taladwy Eraill	13	6,397	6,425
Treth ohiriedig	13	686	311
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		7,083	6,736
Asedau llai rhwymedigaethau		40,373	38,437
Cronfeydd Wrth Gefn			
Cronfa gyffredinol wrth gefn		35,849	30,716
Cronfa bensiw wrth gefn		373	5,813
Enillion nas gwiredwyd o gronfa fuddsoddi wrth gefn		4,151	1,908
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		40,373	38,437

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Aelodau'r Cyngor a'u llofnodi ar eu rhan ar 24 Mehefin 2021 gan:

Ian Brack

Cadeirydd Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

William Moyes

Cadeirydd

Mae'r [nodiadau](#) ar dudalennau 64 i 87 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



Datganiad llif arian

	Nodyn	2020 £'000	2019 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwarged o weithgareddau gweithredu	I&E	5,668	10,960
Addasiad i gostau treth a nawdd cymdeithasol	I&E	-	107
Dibrisio ac amorteiddio	6	1,520	1,593
Colled/(Enillion) ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	6	433	(3)
Lleihad mewn derbyniadau masnachol ac eraill	11	71	652
(Lleihad) mewn symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau eraill	13	(395)	(4,391)
Symudiadau cyllido cronfa bensiwn wrth gefn	16	224	(1,560)
Defnydd o Ddarpariaethau	15	(202)	(798)
(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu		7,319	6,560
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	8	(172)	(1,014)
Prynu asedau anniriaethol	9	-	(77)
Enillion o werthu asedau		40	3
Enillion o werthu asedau ariannol	10	4,610	1,177
Prynu asedau ariannol)	10	(4,584)	(2,253)
Incwm buddsoddi	2	345	516
Treth	7	(393)	(273)
(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(154)	(1,921)
Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido			
Elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydlesu	8	-	(6,727)
(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido		-	(6,727)
Cynnydd net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod		7,165	(2,088)
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod	12	40,255	42,343
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod	12	47,420	40,255
Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod		7,165	(2,088)

Mae'r [nodiadau](#) ar dudalennau 64 i 87 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



Datganiad newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn	Cronfa Bensiwn Wrth Gefn	Enillion nas gwireddwyd ar y Gronfa Fuddsoddi Wrth Gefn	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn
Balans ar 31 Rhagfyr 2018		20,907	3,930	(172)	24,665
Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2019					
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	I&E	13,772	-	-	13,772
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	16	(323)	323	-	-
Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn		(1,560)	1,560	-	-
Enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiadau	10	(2,080)	-	2,080	-
		9,809	1,883	2,080	13,772
Balans ar 31 Rhagfyr 2019		30,716	5,813	1,908	38,437
Newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn 2020					
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	I&E	1,936	-	-	1,936
Colled actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	16	5,216	(5,216)	-	-
Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn		224	(224)	-	-
Enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiadau	10	(2,243)	-	2,243	-
		5,133	(5,440)	2,243	1,936
Balans ar 31 Rhagfyr 2020		35,849	373	4,151	40,374

Mae'r [nodiadau](#) ar dudalennau 64 i 87 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



11. Nodiadau i'r cyfrifon

1. Polisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail 'busnes hyfyw' o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu drwy gynnwys buddsoddiadau ar sail eu gwerth marchnadol, yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) a chan ystyried egwyddorion cyfrifyddu a datgeliadau Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). Isod rhoddir manylion y prif bolisiau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac sydd wedi eu cymhwyso'n gyson.

Sefydlwyd y GDC gan Ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig. Ei brif swyddfa fusnes yw 37 Wimpole St, Llundain W1G 8DQ.

Cyflwynir y datganiadau ariannol yn ein harian cyfred arferol sef punnoedd sterling.

1.1 Fformat y cyfrifon

Mae'n ofynnol i ni baratoi ein cyfrifon blynyddol ar ffurf a benderfynir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a gerbron Senedd yr Alban. Disgrifir pwrpas statudol y GDC yng nghyflwyniad yr adroddiad ar y cyfrifon.

1.2 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

Ni fabwysiadwyd unrhyw safonau a dehongliadau cyfrifyddu newydd yn y flwyddyn ariannol.

1.3 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r IFRS, rhaid i ni wneud amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n cael effaith ar y polisiau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae amcangyfrifon a phenderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliau yn ymwneud â digwyddiadau i ddod y credir eu bod yn rhesymol pan wneir yr amcangyfrifon a'r penderfyniadau. Gall yr union brofiad fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Trafodir isod yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â'r risg fwyaf arwyddocaol o achosi addasiad perthnasol i symiau cario'r asedau a'r rhwymedigaethau:

Buddion pensiwn

Rydym yn rhoi cyfrif am bensiynau'n unol ag 'IAS 19 Buddion Gweithwyr'. Wrth benderfynu ar gostau pensiwn a rhwymedigaethau buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y GDC, defnyddir nifer o dybiaethau sy'n cynnwys y gyfradd ddisgownt, twf cyflogau, chwyddiant prisiau, yr enillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2013 ymlaen. Cytunir ar y tybiaethau gyda'r actiwari cymwysedig a defnyddir hwy i gyfrifo'r darpariaethau pensiwn. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

Ar 31 Rhagfyr 2020 mae gan y cynllun warged o £0.4 miliwn ar sail y tybiaethau IAS 19 a ddefnyddiwyd.



O dan ofynion 'IFRIC 14: The Limit on a Defined Benefit Asset, Minimum Funding Requirements and their Interaction', gallem gael ein cyfyngu i gyfyngu'r gwarged yn y datganiadau ariannol pe na baem yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r Cynllun byddem yn gallu sicrhau manteision economaidd llawn o'r gwarged naill ai drwy wyliau cyfraniadau llawn neu leihau'r cyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid yw'r gwarged a adroddwyd wedi'i gyfyngu.

Darpariaethau

Rydym yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol, ac sydd o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol, ar sail yr amcan gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

Dibrisio ac amorteiddio

Cyfrifwn am ddibrisio ac amorteiddio'n unol ag 'IAS 16 – Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar' ac 'IAS 38 – Asedau Anniriaethol'. Mae costau dibrisio ac amorteiddio'n cydnabod y dirywiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnod y bydd yr ased yn cael ei defnyddio.

Gwneir dyfarniad ynghylch oes ddefnyddiol dybiedig yr asedau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu amgylchiadau newidiol.

Rhoddir manylion pellach yn y polisi cyfrifyddu ar ddibrisio ac amorteiddio isod (nodyn 1.6).

1.4 Busnes hyfyw

Rydym yn gorff statudol gyda darpariaeth barhaus o wasanaeth. Cynhyrchir ein hincwm o ffioedd drwy ffioedd cofrestru gorfodol i ddeintyddion a gweithwyr DCP sy'n ymarfer yn y DU. Derbyniwyd ffioedd cofrestru ar gyfer deintyddion, ar gyfer 2021, yn llawn ym mis Rhagfyr 2020. Derbyniwyd ffioedd cofrestru ar gyfer gweithwyr DCP, am y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2021, ym mis Gorffennaf 2020. Felly roedd 85% o'n holl incwm ar gyfer 2021 wedi'i dderbyn ar y dyddiad adrodd.

Rydym yn cwblhau dadansoddiad senario manwl i brofi straen effaith unrhyw leihad yn nifer y cofrestreion ar ein hincwm dros y tair blynedd nesaf. Roedd y senarios a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y wybodaeth ystadegol a oedd ar gael gan fodelu effaith gwahanol lefelau risg incwm ar ein hylifedd a lefel ddisgwyliedig ein cronfeydd wrth gefn rhydd. Fel rhan o'r gwaith modelu hwn rydym wedi cwblhau dadansoddiad sensitifrwydd hefyd i ddeall faint y byddai'n rhaid i nifer y cofrestreion ostwng i'n rhoi mewn sefyllfa arian parod ddybryd.

Caiff ein gallu i liniaru unrhyw risg i'n hincwm yn y dyfodol ei gynorthwyo hefyd gan y ffaith y cwblheir ein cynlluniau gweithredol gryn amser ymlaen llaw, gan roi cyfle pellach i ni leihau ein costau er mwyn sicrhau y gellir cynnal ein hyfywedd ariannol.

Ar ôl adolygu'r senarios hyn a diweddarau ein rhagolygon gwariant gweithredol ar gyfer 2021, ystyriwn ei bod yn briodol i ni baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.



1.5 Eiddo, peiriannau, cyfarpar ac asedau anniriaethol

Mae eitemau o eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol wedi'u datgan ar sail gwerth teg gan ddefnyddio cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi.

Mae ymarfer dilysu blynyddol yn cael ei gwblhau i sicrhau bod yr asedau'n bresennol, ac yn gweithio. Gwaredir unrhyw offer sydd wedi'i ddifrodi na ellir ei atgyweirio'n economaidd.

Adroddir Asedau Sefydlog Anghyfredol Diriaethol fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle'n briodol, dosbarthwyd meddalwedd ac asedau datblygu fel Asedau Anniriaethol o dan IAS 38.

Cedwir asedau sydd wrthi'n cael eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu ar sail cost tan y daw'r asedau hynny'n weithredol, ac y trosglwyddir hwynt i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn berthnasol iddo.

Dim ond lle mae cost yr ased neu'r grŵp o asedau a brynwyd yn fwy na £1,000 y mae gwariant yn cael ei gyfalafu.

1.6 Dibrisio ac amorteiddio

Darperir ar gyfer dibrisio ac amorteiddio er mwyn dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Mae treuliau dibrisio ac amorteiddio wedi eu cynnwys yn y llinell costau gweinyddol yn y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Mae oes ddefnyddiol dybiedig asedau fel a ganlyn:

Dosbarth yr ased	Oes yr ased
Dodrefn a ffitiadau	Hyd at 10 mlynedd
Peiriannau a chyfarpar	Hyd at 25 mlynedd
Cyfarpar TG	Hyd at 5 mlynedd
Meddalwedd TG, trwyddedau a sicwydd meddalwedd	Hyd at 5 mlynedd
Gwelliannau lesddaliad	Dros weddill y brydles - 20 mlynedd neu 10 mlynedd, neu lle bo'n llai na hynny, dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig
Asedau hawl defnyddio	Dros weddill y brydles

Adolygir cyfraddau dibrisio'n rheolaidd drwy gymharu oes wirioneddol ased â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

1.7 Amhariad

Ar ddyddiad pob Datganiad Sefyllfa Ariannol, adolygwn symiau cario ein hasedau i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi dioddef colled drwy amhariad. Os awgrymir bod hyn wedi digwydd, gwneir amcan o werth adenilladwy yr ased er mwyn mesur maint y golled oherwydd amhariad. Codir colled drwy amhariad ar y datganiad incwm yn syth.

Pan fydd cynnydd dilynol yn swm adenilladwy ased oherwydd newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddir i benderfynu faint yw'r swm adenilladwy, mae'n cael ei ystyried yn wrthdroad o'r golled flaenorol drwy amhariad ac yn cael ei gydnabod fel swm cario'r ased a fyddai wedi cael ei benderfynu (net o ddibrisio ac amorteiddio) pe na bai colled drwy amhariad wedi'i chydabod. Mae'r gwrthdroad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm a gwariant yn syth.



1.8 Gwariant

Cyfrifir am wariant ar sail croniadau pan fydd naill ai'r nwyddau wedi'u derbyn neu'r gwasanaeth wedi'i gyflawni. Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei gynnwys gyda'r eitem gost berthynol.

1.9 Incwm

Cyfrifir am refeniw dros y cyfnod y mae'n rhaid i ni gynnal cofrestriad unigolyn. Y cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion yw rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr. Y cyfnod cofrestru ar gyfer gweithwyr DCP yw rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf. Nid oes angen unrhyw ddyfarniadau nac amcangyfrifon allweddol wrth asesu rhwymedigaethau'r GDC, sydd wedi eu gwasgaru'n gyfartal drwy gydol y cyfnod cofrestru. Felly mae'r holl ffioedd yn cael eu gohirio i ddechrau a'u rhyddhau ar sail llinell syth drwy gydol y cyfnodau cofrestru perthynol.

Mae ffioedd a dderbynnir am Arholiadau Cofrestru Tramor yn cael eu cydnabod pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Mae ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall yn cael eu cydnabod pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol. Mae incwm buddsoddi'n cael ei gydnabod pan ddaw'r difidend neu log yn ddyledus, a chaiff ei ddatgan fel swm gros o dreth adenilladwy.

1.10 Prydlesi

Ar gyfer unrhyw gontract newydd yr ymrwymir iddo yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, ystyriwn a yw'n brydles neu a yw'n cynnwys prydles. Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur ar sail gwerth y taliadau prydles na thalwyd hyd at y dyddiad hwnnw, wedi'i ddisgowntio ar sail y gyfradd llog ymhlyg yn y brydles lle bo'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd, neu ar sail ein cyfradd llog gynyddrannol (2020: 0.1%); sy'n unol â Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr.

Mae asedau hawl defnyddio yn cael eu mesur ar sail cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o rwymedigaeth y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wariwyd gennym, amcan o unrhyw gostau i ddatgymalu a symud yr ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed cyn dyddiad dechrau'r brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae ased hawl defnyddio yn cael ei dibrisio ar sail llinell syth o ddyddiad dechrau'r brydles tan ddiwedd ei hoes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Asesir prydlesi ar gyfer amhariad pan fydd arwydd o hynny.

Rydym wedi dewis rhoi cyfrif am brydlesi tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel am resymau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles, mae'r taliadau cysylltiedig yn cael eu cydnabod fel cost o dan elw neu golled, ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Mae'r Cyngor:

- wedi trin unrhyw brydles gydag ased sylfaenol gwerth llai na £3,000 fel ased gwerth isel
- wedi trin unrhyw brydles gyda llai na 12 mis tan y daw i ben fel prydles tymor byr
- wedi cydnabod prydlesi tymor byr a gwerth isel ar sail llinell syth fel cost yn y cyfrif incwm a gwariant.

Yn y datganiad sefyllfa ariannol, mae asedau hawl defnyddio wedi'u cynnwys o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar a rhwymedigaethau prydles o dan symiau taladwy masnachol ac eraill.

Nid oes gennym unrhyw drefniadau is-brydlesu, gwerthu ac ôl-brydlesu, na threfniadau lle'r ydym yn brydlesydd.



Prydlesi swyddfeydd

Mae'r asedau prydles ar 31 Rhagfyr 2020 yn cynnwys cytundebau rhent ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain a Birmingham.

Nid yw'r prydlesi'n cynnwys unrhyw opsiynau i adnewyddu am gyfnod ychwanegol. Rhaid i unrhyw addasiadau a wneir i'r swyddfeydd gael eu cytuno ymlaen llaw gyda'r prydlesydd a thrwy roi'r rhybudd cytundebol perthnasol.

Swyddfa Llundain

Mae'r brydles ar y swyddfa yn Llundain yn pennu bod yr eiddo i'w feddiannu fel pencadlys y GDC. Mae'r brydles yn cynnwys rhandaliad prydles amrywiol ar sail y mynegai prisiau manwerthu, ac yn cael ei ailbriso bob pum mlynedd.

O dan delerau'r brydles rhaid i ni fod ag yswiriant digonol drwy gwmni yswiriant a benodir gan y prydlesydd, rhag tân a difrod i'r eiddo. Rydym yn gyfrifol hefyd am gynnal a chadw a golwg allanol yr eiddo yn gyfnodol fel y nodir yn y contract.

Swyddfa Birmingham

O dan delerau'r brydles ar gyfer swyddfa Birmingham rhaid i ni wneud taliadau i'r prydlesydd am daliadau gwasanaethau ac yswiriant sy'n cael eu penderfynu'n flynyddol fel rheol. Mae'r taliadau rhent yn cael eu hadolygu drwy adolygiad rhent bob pum mlynedd.

Mae'n ofynnol i ni fod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ar gyfer yr eiddo gyda chwmni yswiriant sydd ag enw da.

1.11 Trethiant

Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu ar ffynonellau incwm allanol yn unig. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hwn.

Mae treth ohiriedig yn cael ei chynabod ar bob gwahaniaeth dros dro trethadwy. Fodd bynnag, ni chyfrifir treth ohiriedig wrth gydnabod ased neu rwymedigaeth i ddechrau oni bai bod y trafodiad cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifyddol. Yn ogystal, mae ased treth gohiriedig yn cael ei gydnabod hefyd ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro didynadwy i'r graddau ei nod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael i ddefnyddio'r gwahaniaeth dros dro didynadwy yn ei erbyn. Mesurir rhwymedigaethau ac asedau treth gohiriedig ar sail y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys i'r cyfnod pan wireddir yr ased, neu pan setlir y rhwymedigaeth. Mae mesur yn seiliedig hefyd ar ganlyniadau treth adennill neu setlo swm cario'r asedau a'r rhwymedigaethau. Mae newidiadau mewn rhwymedigaethau neu asedau treth gohiriedig yn cael eu cydnabod fel elfen o gost treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

1.12 Cynlluniau pensiwn

Roedd gan y Cyngor bedwar cynllun pensiwn yn 2020.

Cynllun Pensiwn	Ymddiriedolaeth
Ymddiriedolaeth Meistr	People's Pension
Adran Buddion Diffiniedig	Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
Adran Cyfraniadau Diffiniedig 'atodol'	Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol



Mae gweithwyr a ymunodd â'r GDC ar ôl 31 Rhagfyr 2014 yn dod o dan gynllun Ymddiriedolaeth Meistr y People's Pension. Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig y cynllun hwn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaeth y gweithiwr, drwy dalu symiau i'r People's Pension wedi eu cyfrifo ar sail gronnu. Mae'r cyfraniadau'n cael eu pennu fel canran o'r cyflog pensiynadwy, gyda chyfraniad y cyflogwr yn isafswm o 6% ac uchafswm o 10% o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar y People's Pension.

Mae'r ddau gynllun pensiwn arall o fewn yr un ymddiriedolaeth – Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Bywyd 1970 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae asedau'r cynlluniau'n cael eu cadw ar wahân i rai'r Cyngor ac yn cael eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 16.

Adran buddion diffiniedig

Caewyd yr adran hon i weithwyr newydd y cynigiwyd cyflogaeth dyddiedig ar ôl 31 Rhagfyr 2014 iddynt ac i rai a oedd yn ymuno o'r newydd ar ôl 1 Gorffennaf 2016. Codir costau gwasanaeth presennol yr adran pensiwn buddion diffiniedig, net costau llog y cynllun, a'r enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun am y flwyddyn, ar y cyfrif incwm a gwariant o dan 'costau pensiwn'. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth o dan 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mesurir asedau'r adran buddion diffiniedig ar sail eu gwerth teg ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull amcanwerth unedol, gyda disgownt ar gyfradd gyfwerth â'r elw disgwyliedig ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod cyfatebol i rwymedigaethau'r cynllun. Datgelir yr ased neu rwymedigaeth budd diffiniedig canlyniadol ar wahân yn y datganiad sefyllfa ariannol.

Adran cyfraniadau diffiniedig 'atodol'

Caewyd yr adran hon i staff yn ymuno o'r newydd ar ôl 1 Ebrill 2014. Mae cyfrannu'n wirfoddol ac mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniad cyfwerth hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy. Codir y cyfraniadau ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus..

1.13 Offerynnau ariannol

Asedau ariannol

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau fel gwarannau rhestredig, gwarannau llog sefydlog, ecwiti ynghyd ag ymddiriedolaeth uned sy'n gronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warannau rhestredig ac adneuron arian parod. Fe'u dosberthir fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' at ddibenion IFRS 9.

Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau bidio diwedd dydd ar y dyddiadau cyfrifyddu. Mae enillion nas gwirededwyd a cholledion yn deillio o newidiadau mewn gwerth marchnadol yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 10.

Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

Cedwir arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar gost wedi'i hamorteiddio ac maent yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuron a gedwir ar alwad gyda banciau. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 12.



Symiau derbyniadwy masnachol ac eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maen nhw'n deillio'n bennaf o ragdalau am wasanaethau a dderbynnir. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 11.

Symiau taladwy masnachol ac eraill

Mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna ar sail gwerth anfoneb neu gost wedi'i hamorteiddio. Maen nhw'n deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 13.

1.14 Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r cronfeydd yn cynnwys y wybodaeth isod.

Cronfeydd wrth gefn cyffredinol

Maent yn cynrychioli'r canlyniadau sy'n weddill ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau cynlluniau pensiwn.

Y gronfa bensiw wrth gefn

Maent yn cynrychioli'r enillion a'r colledion actiwaraidd ar asedau cynlluniau pensiwn sy'n deillio o ailbriso darpariaeth y GDC ar gyfer ased/rhwymedigaeth y cynllun pensiwn buddion diffiniedig.



2. Incwm

2.1 Incwm o gofrestru

	Nifer	2020 £'000	2019 £'000
Deintyddion			
Cyfanswm cofrestriadau newydd	1,623	541	752
Cofrestriadau dros dro	27	20	19
Cadw	41,497	28,113	36,366
Adfer ar ôl tynnu oddi ar y gofrestr	157	76	107
Cyfanswm	43,304	28,750	37,244
Gweithwyr Gofal Deintyddol			
Cyfanswm cofrestriadau newydd	3,878	240	116
Cadw (Awst i Ragfyr)*	68,868	3,110	3,361
Cadw (Ionawr i Orffennaf)**	-	4,777	4,783
Adfer ar ôl tynnu oddi ar y gofrestr	864	66	111
Cyfanswm	73,610	8,193	8,371
Arbenigwyr			
Ychwanegiadau at y rhestr arbenigwyr	129	45	62
Cadw arbenigwyr blynyddol	4,236	308	307
Ffi adfer arbenigol	-	4	-
Cyfanswm	4,365	357	369
Ffioedd prosesu ceisiadau cofrestru		814	-
Cyfanswm Incwm Cofrestru		38,114	45,984

Mae'r ffigyrau uchod yn adlewyrchu cofrestreion yn talu ffioedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na nifer y cofrestreion ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2020.

2.2 Incwm arall

	2020 £'000	2019 £'000
Ffioedd Arholiadau	422	1,592
Incwm Amrywiol	174	19
Incwm Buddsoddi	345	516
Cyfanswm Incwm Arall	941	2,127

Mae incwm amrywiol yn cynnwys £101 mil a hawliwyd o dan [Y Cynllun Cadw Swyddi Drwy Gyfnod y Coronafeirws](#). Mae rhagor o wybodaeth am ein defnydd o'r cynllun ar gael ar dudalen 51 yr adroddiad hwn.



3. Costau staff

	Staff a gyflogir yn barhaol £'000	Eraill £'000	2020 Cyfanswm £'000	2019 Cyfanswm £'000
Costau Staff				
Cyflogau a thâl	14,807	-	14,807	15,497
Costau nawdd cymdeithasol	1,635	-	1,635	1,721
Costau pensiwn	1,508	-	1,508	1,473
Cwtogi'r cynllun pensiwn	-	-	-	(1,670)
Taliadau terfynu a dileu swyddi	383	-	383	-
Costau staff eraill	691	-	691	1,206
Is-gyfanswm	19,024	-	19,024	18,227
Staff dros dro	-	162	162	427
Cyfanswm	19,024	162	19,186	18,654

4. Gwariant ar wasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol

	2020 £'000	2019 £'000
Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol		
Cydnabyddiaeth a threuliau'r archwilydd:		
Archwiliad allanol	24	25
Archwiliad allanol - Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	5	5
Archwiliad mewnol	92	61
Ffioedd yr Awdurdod Safonol Proffesiynol	302	296
Cynnal gwrandawiaidau	1,211	1,673
Ffioedd Cwnsleriaid	637	888
Ffioedd arbenigwyr	572	697
Costau arholiadau	405	1,417
Ffioedd a thaliadau eraill	1,452	1,563
Alldaliadau eraill	110	138
Cyfanswm	4,810	6,762
Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau di-archwilio canlynol gan ei archwilwyr allanol Haysmacintyre:		
Am gyngor treth gorfforaethol	3	4
Cyfanswm	3	4



5. Gwariant cyfarfodydd cyngor a phwyllgorau

	2020 £'000	2019 £'000
Cyfanswm ffioedd a threuliau'r Cyngor	469	367
Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli	1,610	1,916
Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli	167	608
Ffioedd a threuliau proffesiynol pwyllgorau a phaneli	814	1,058
Treuliau cyfarfod pwyllgorau a phaneli	409	1,720
Treuliau Cyfarfodydd Pwyllgor	3,000	5,302
Cyfanswm Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau	3,469	5,669

6. Gwariant gweinyddol arall

	2020 £'000	2019 £'000
Costau gweinyddol		
Dibrisio	1,428	1,457
Amorteiddio	92	136
Colled o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	433	(3)
Llogi peiriannau swyddfa	6	17
Prydlesi adeiladu	217	207
Taliadau llog	243	244
Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth	1,057	1,213
Costau personél	22	33
Costau gweithredu eraill	531	596
Cyfanswm	4,028	3,900
Costau swyddfa		
Ardrethi Busnes	598	599
Glanhau	139	153
Cynnal a chadw ac atgyweirio	211	175
Costau Swyddfa Eraill	137	249
Cyfanswm	1,085	1,176
Costau cyfathrebu a chyhoeddi		
Cyfathrebu a Chyhoeddiadau	464	474
Cyfanswm	464	474
Cyfanswm costau gweinyddol eraill	5,577	5,550



7. Trethiant

7.1 Dadansoddiad o daliadau treth

	2020 £'000	2019 £'000
Treth bresennol		
Treth gorfforaeth y DU ar elw'r flwyddyn	39	107
Addasiad treth blwyddyn flaenorol	(21)	-
Trethiant tramor	1	1
Cyfanswm taliadau treth cyfredol	19	108
Treth ohiriedig		
Tarddiad a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	337	165
Effaith newid yn y gyfradd dreth ar y balans agoriadol	37	-
Cyfanswm y dreth ohiriedig	374	165
Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin	393	273

7.2 Ffactorau'n effeithio ar y dreth a godwyd am y cyfnod

	2020 £'000	2019 £'000
Mae'r Cyngor yn cael ei drethu fel corff cydfuddiannol ac felly'n cael ei drethu ar ffynonellau incwm allanol yn unig. Yn hanesyddol, incwm buddsoddi yw hwn.		
Ffactorau'n effeithio ar y dreth a godwyd am y cyfnod		
Elw am y flwyddyn	5,303	11,643
Treth ddisgwyliedig o 19.0% (2019: 19.0%)	1,007	2,212
Effeithiau:		
Incwm di-dreth	(994)	(1,842)
Addasu i'r gwerthoedd a ddygwyd ymlaen	26	47
Symudiad yn y balans treth gohiriedig oherwydd newid mewn cyfraddau treth	-	(19)
Treth ar daliadau cydraddoli a buddsoddiadau llog sefydlog sy'n cynyddu yn eu gwerth	337	191
Credydau trethiant tramor	1	1
Ail-fesur treth ohiriedig ar gyfer newid mewn cyfraddau treth	37	
Addasiad treth blwyddyn flaenorol	(21)	(317)
Treth yn y flwyddyn gyfredol	393	273



8. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

	2020					
	Gwelli-annau Lesddaliad	Asedau Hawl Defnyddio	Peirian- nau a Chyfar- par	Dodrefn a Ffitia- dau	Technoleg Gwybo- daeth	Cyfan- swm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Balans ar 1 Ionawr	14,699	6,727	1,181	1,127	2,157	25,891
Ychwanegiadau	79	-	-	53	40	172
Gwarediadau	(4,479)	-	(8)	(36)	(622)	(5,145)
Balans ar 31 Rhagfyr 2020	10,299	6,727	1,173	1,144	1,575	20,918
Dibrisiant						
Ar 1 Ionawr 2020	5,001	438	632	661	1,175	7,907
Codwyd yn y flwyddyn	372	437	106	175	338	1,428
Gwarediadau	(4,075)	-	(8)	(36)	(620)	(4,739)
Balans ar 31 Rhagfyr 2020	1,298	875	730	800	893	4,596
Gwerth llyfr net						
Balans ar 31 Rhagfyr 2020	9,001	5,852	443	344	682	16,322
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	9,698	6,289	549	466	982	17,984

	2019					
	Gwelli-annau Lesddaliad	Asedau Hawl Defnyddio	Peirian- nau a Chyfar- par	Dodrefn a Ffitia- dau	Technoleg Gwybo- daeth	Cyfan- swm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu brisiad						
Balans ar 1 Ionawr 2019	14,154	-	1,132	1,110	1,753	18,149
Ychwanegiadau	545	6,727	49	17	404	7,742
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	14,699	6,727	1,181	1,127	2,157	25,891
Dibrisiant						
Ar 1 Ionawr 2019	4,604	-	507	445	894	6,450
Codwyd yn y flwyddyn	397	438	125	216	281	1,457
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	5,001	438	632	661	1,175	7,907
Gwerth llyfr net:						
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	9,698	6,289	549	466	982	17,984
Balans ar 31 Rhagfyr 2018	9,550	-	625	664	860	11,699

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau heblaw asedau hawl defnyddio.



9. Asedau anniriaethol

	2020		
	Meddalwedd £'000	Trwyddedau £'000	Cyfansymiau £'000
Cost			
Balans ar 1 Ionawr 2020	2,065	444	2,509
Gwaredu	(642)	(194)	(836)
Balans ar 31 Rhagfyr 2020	1,423	250	1,673
Amorteiddio			
Balans ar 1 Ionawr 2020	1,977	378	2,355
Codwyd yn y flwyddyn	73	19	92
Gwaredu	(639)	(171)	(810)
Balans ar 31 Rhagfyr 2020	1,411	226	1,637
Gwerth llyfr net:			
Balans ar 31 Rhagfyr 2020	12	24	36
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	88	66	154

	2019		
	Meddalwedd £'000	Trwyddedau £'000	Cyfansymiau £'000
Cost			
Balans ar 1 Ionawr 2019	2,065	367	2,432
Ychwanegiadau	-	77	77
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	2,065	444	2,509
Amorteiddio			
Balans ar 1 Ionawr 2019	1,867	352	2,219
Codwyd yn y flwyddyn	110	26	136
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	1,977	378	2,355
Gwerth llyfr net			
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	88	66	154
Balans ar 31 Rhagfyr 2018	198	14	213

Y GDC sy'n berchen ar yr holl asedau.



10. Asedau ariannol

	2020			2019		
	Ecwitiai £'000	Gwaran- nau Llog Sefydlog £'000	Cyfan- swm £'000	Ecwitiai £'000	Gwaran- nau Llog Sefydlog £'000	Cyfan- swm £'000
Balans ar 1 Ionawr	12,369	5,161	17,530	10,152	4,163	14,315
Ychwanegiadau	3,859	725	4,584	1,251	1,002	2,253
Gwarediadau	(3,927)	(683)	(4,610)	(927)	(250)	(1,177)
Colledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau	(557)	(194)	(751)	58	1	59
Enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiadau	1,904	339	2,243	1,835	245	2,080
Balans ar 31 Rhagfyr	13,648	5,348	18,996	12,369	5,161	17,530

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020 Ecwitiai £297,404 (2019: £394,491).

Dyfynnir yr asedau ariannol uchod mewn marchnad weithredol a chânt eu cynnwys ar sail eu gwerth marchnadol. Dosberthir yr holl asedau ariannol uchod yn rhai lefel 1 at ddibenion datgelu o dan IFRS 7, gan fod yr holl symiau wedi cael eu pennu drwy gyfeirio at brisiau a ddyfynnir mewn marchnad weithredol.

11. Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

	2020 £'000	2019 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau derbyniadwy eraill	105	121
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	966	1,021
Cyfanswm	1,071	1,142

Mae oed yr holl dderbyniadau'n gyfredol ac nid oes unrhyw symiau heibio'r dyddiad dyledus, ond heb amhariad. Nid oes darpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Nid oes unrhyw asedau ariannol gydag amhariad.

12. Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

	2020 £'000	2019 £'000
Balans ar 1 Ionawr	40,255	42,344
Newid net mewn balansau arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	7,165	(2,089)
Balans ar 31 Rhagfyr	47,420	40,255
Roedd y balansau canlynol ar gadw mewn:		
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	37,034	30,099
Adneuon banc tymor byr	10,386	10,156
Balans ar 31 Rhagfyr	47,420	40,255

13. Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2020 £'000	2019 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Treth gorfforaethol	39	109
Trethiant a nawdd cymdeithasol arall	457	494
Symiau masnachol sy'n daladwy	604	775
Symiau taladwy eraill	75	86
Croniadau	1,322	2,151
Incwm gohiriedig	33,981	33,605
Rhan gyfredol rhwymedigaethau prydles	273	273
Cyfanswm	36,751	37,493
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:		
Rhwymedigaethau Prydles	6,397	6,425
Treth ohiriedig	686	311
Cyfanswm	7,083	6,736
Cyfansymiau Taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol Eraill	43,834	44,229

Ailddatganwyd ffigurau 2019 i gywiro dosbarthiad y Dreth Gorfforaethol sy'n ddyledus ar y dyddiad adrodd fel rhwymedigaeth gyfredol.

14. Offerynnau ariannol a rheoli risgiau ariannol

	2020 £'000	2019 £'000
Costau wedi'u hamorteiddio		
Arian parod a balansau banc	47,420	40,255
Derbyniadau masnachol ac eraill	105	121
Cyfanswm	47,525	40,376

	2020 £'000	2019 £'000
Gwerth teg drwy elw a cholled		
Ecwitiâu	18,996	17,530
Cyfanswm	18,996	17,530

Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau fel ecwiti, gwarannau rhestredig ynghyd ag ymddiriedolaeth uned sy'n gronfa a reolir sy'n cynnwys portffolio cymysg o warannau rhestredig ac adneuron arian parod. Fe'u dosberthir fel 'gwerth teg drwy elw a cholled' at ddibenion IFRS 9. Cynhwysir buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu ar sail eu gwerth marchnadol diwedd blwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y prisiau bidio diwedd dydd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae'r buddsoddiadau wedi'u categoreiddio fel rhai lefel un at ddibenion datgelu o dan IFRS 7.



	2020 £'000	2019 £'000
Rhwymedigaethau Ariannol		
Symiau taladwy masnachol ac eraill	2,499	3,615
Cyfanswm	2,499	3,615

Risg credyd

Risg credyd yw risg bod un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i'r parti arall. Ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Nid yw'r GDC yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ac nid oes ganddo unrhyw ddyledion allanol. Mae'n defnyddio amrywiaeth o fesurau lliniaru risg gan gynnwys asesiadau sgoriau credyd i asesu risg credyd partiion eraill, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

Risg hylifedd

Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian parod yn gylchol ac ar eu huchaf yn Rhagfyr / Ionawr a Gorffennaf / Awst. Mae lefelau arian parod yn isel rhwng y cyfnodau hyn oherwydd bod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf pan fydd gweithwyr gofal deintyddol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor wedi'i wasgaru'n gyfartal drwy gydol y flwyddyn.

Rydym wedi ymrwymo i wariant yn y dyfodol, yn bennaf ar brydlesi. Oherwydd ein bod yn gorff statudol wedi'i ariannu gan ffioedd cofrestru gorffodol a delir gan ddeintyddion a gweithwyr DCP, credwn fod y risg na allwn fodloni'r rhwymedigaethau hyn yn isel.

Felly mae'r Cyngor o'r farn nad oes posibilrwydd arwyddocaol o risg hylifedd.

Risg arian cyfred

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau mewn punnoedd sterling felly nid oes risg arian cyfred o ddal buddsoddiadau ecwiti tramor. Fodd bynnag, mae rhai o'r cronfeydd cyfunol wedi eu buddsoddi dramor a gall rhai cwmnïau ddatgan difidend mewn arian cyfred heblaw sterling, ond wedyn talu mewn sterling, felly gall fod risg o amrywiadau arian cyfred.

Mae gan y GDC bolisi cronfeydd wrth gefn. Oherwydd cylchoedd adnewyddu cofrestru a dulliau talu ffioedd cofrestreion, mae gan y GDC swm priodol o arian parod mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu am y gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Mae gweithwyr deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae arian gwarged yn cael ei gadw fel a ganlyn:

- Adnau cyfnod penodol – cedwir y rhan fwyaf o'r arian gwarged yn y farchnad arian tymor byr. Rydym yn chwilio am gyfraddau cystadleuol wrth fuddsoddi yn y farchnad arian.
- Buddsoddiadau – buddsoddir gweddill yr arian mewn portffolio o fuddsoddiadau ecwiti ac ymddiriedolaethau uned lle mae risg o ostyngiad mewn gwerth bob amser.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol drwy ddefnyddio strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a niwed diangen i gyfrifoldebau rheoleiddio'r GDC.



Cymeradwydd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o egwyddorion buddsoddi ym mis Rhagfyr 2011 a chafodd ei ail-gadarnhau ym mis Rhagfyr 2019, a nod y GDC fydd cynnal portffolio risg buddsoddi sy'n ceisio sicrhau enillion ar fuddsoddiadau ar yr un lefel â chwyddiant yn fras.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn arwyddocaol o ran bod y GDC yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei waith.

15. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2020 £'000	2019 £'000
Balans ar 1 Ionawr	212	1,011
Darparwyd yn y flwyddyn	3	-
Adferwyd gwerth	(59)	(97)
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	(146)	(702)
Balans ar 31 Rhagfyr	10	212

16. Y gronfa bensiwn

Mae gan y GDC gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu'n llwyr drwy gyfraniadau gan y GDC ac aelodau'r cynllun pensiwn. Cafodd prisiad actiwaraid llawn ei wneud ar 1 Ebrill 2017 ac fe'i diweddarwyd i 31 Rhagfyr 2020 gan actiwari cymwys annibynnol.

Ar 31 Rhagfyr 2020 mae gan y cynllun warged o £0.4 miliwn ar sail y tybiaethau IAS 19 a ddefnyddiwyd. Gwelodd adran buddion diffiniedig y cynllun ostyngiad actiwaraid net yn ei werth o £5.4 miliwn yn 2020, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Mae hyd y cynllun oddeutu 30 mlynedd felly disgwylir y byddwn yn talu llifoedd arian parod yn y dyfodol am fwy na 30 mlynedd. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari wrth ddiweddarau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2020 oedd:

	2020	2019
Cyfradd chwyddiant	3.0%	3.2%
Cyfradd codiadau cyflog	3.5%	3.7%
Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 5.0% ar y mwyaf	2.9%	3.1%
Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 3% o leiaf, 5% ar y mwyaf	3.5%	3.6%
Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiwn lle mae'r RPI yn 2.5% ar y mwyaf	2.1%	2.2%
Cyfradd ddisgownt	1.3%	2.1%
Cyfran y cyflogeion sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed	50.0%	50.0%

Disgwyliaid oes wrth ymddeol yn 65 oed:

	2020	2019
Ymddeol heddiw - dynion	23.0	22.9
Ymddeol heddiw - menywod	24.4	24.4
Ymddeol mewn 20 mlynedd - dynion	23.9	24.4
Ymddeol mewn 20 mlynedd - menywod	25.5	25.5



Mae'r tybiaethau marwoldeb ar gyfer diwedd y cyfnod cyfredol yn dilyn tablau marwoldeb S3PxA Light wedi'u haddasu'n unol â rhagamcaniadau CMI 2018 gyda thuedd tymor hir o 1% y flwyddyn.

Mae prif categorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun fel a ganlyn:

	Dyraniad (£) 2020	Dyraniad (%) 2020	Dyraniad (£) 2019	Dyraniad (%) 2019
Ecwitiau	12,347	30.0%	27,242	72.6%
Cronfeydd ag Elw	3,548	8.6%	3,419	9.1%
Bondiau	-	0.0%	3,919	10.3%
Arian Parod	3,281	8.0%	2,965	8.0%
LDI	11,099	27.0%	-	-
Eraill	10,819	26.4%	-	-
Cyfanswm	41,094	100.0%	37,545	100.0%

Ni fuddsoddir dim o asedau'r cynllun pensiwn yn y GDC.

	2020 £'000	2019 £'000
Elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn	3,242	5,561

Dadansoddiad o symiau wedi eu debydu/credydu i'r cyfrifon incwm a gwariant:

	2020 £'000	2019 £'000
Incwm a Gwariant:		
Cost gwasanaeth cyfredol	750	762
Net incwm llog net ar rwymedigaeth bensiwn net	(119)	(107)
Cwtogi'r cynllun pensiwn	-	(1,671)
Cyfanswm incwm/(cost)	631	(1,016)

Y symiau a gydnabyddir yn y datganiad sefyllfa ariannol:

	2020 £'000	2019 £'000
Datganiad Sefyllfa Ariannol:		
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariannwyd	(40,721)	(31,732)
Gwerth teg asedau	41,094	37,545
Gwarged	373	5,813



Symiau o incwm cynhwysfawr arall yn y datganiad:

	2020 £'000	2019 £'000
Incwm Cynhwysfawr arall:		
(Colled)/enillion actiwaraidd ar asedau'n cynllun	2,450	4,670
(Colled)/enillion actiwaraidd ar rwymedigaeth budd diffiniedig	(7,666)	(4,347)
o'r rhain oherwydd profiad	(84)	32
o'r rhain oherwydd tybiaethau demograffig	-	165
o'r rhain oherwydd tybiaethau ariannol	(7,582)	(4,544)
Cyfanswm (colled)/enillion yn y datganiad incwm cynhwysfawr arall	(5,216)	323

Mae'r Cyngor yn disgwyl cyfrannu £401 mil i'w gynllun pensiwn buddion diffiniedig yn 2021.

Dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

	2020 £'000	2019 £'000
Cyfradd ddisgownt wedi'i gostwng 0.1% y.f. (2019: 0.1% y.f.)	39,521	31,032
Cynyddodd chwyddiant RPI 0.1% y.f. (2019: 0.1% y.f.)	39,921	31,232
Cynyddodd twf cyflogau 0.1% y.f. (2019: 0.1% y.f.)	40,521	31,532
Marwoldeb – mae disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i ddisgwyliad oes rhywun blwyddyn yn iau	39,321	31,032

Newidiadau yng ngwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

	2020 £'000	2019 £'000
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr	31,732	27,755
Cost llog	673	784
Cost gwasanaeth	750	762
Cyfraniadau gan aelodau	159	216
Colled/(enillion) actiwaraidd	7,666	4,347
Cwtogi'r cynllun pensiwn	-	(1,671)
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun/costau gweinyddol a dalwyd	(259)	(461)
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr	40,721	31,732



Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:

	2020	2019
	£'000	£'000
Gwerth teg ar 1 Ionawr	37,545	31,685
Incwm llog	792	891
Enillion ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog	2,450	4,670
Cyfraniadau'r cyflogwr	407	544
Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	159	216
Buddion a dalwyd/costau gweinyddol a dalwyd	(259)	(461)
Gwerth teg ar 31 Rhagfyr	41,094	37,545

Newidiadau mewn gwarged adenilladwy ac elfennau o berfformiad y cynllun:

	2020	2019
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ionawr	5,813	3,930
Cost gwasanaeth cyfredol	(750)	(762)
Cwtogi'r cynllun pensiwn	-	1,671
Llog ar y gwarged	119	107
Cyfraniadau'r cyflogwyr	407	544
(Colled)/enillion actiwaraidd	(5,216)	323
Balans ar 31 Rhagfyr	373	5,813

Symiau am y cyfnodau cyfredol a blaenorol:

	2020	2019	2018	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Enillion ar asedau'r cynllun sy'n fwy na'r incwm llog	2,450	4,670	(2,570)	2,195
Enillion/(colledion) profiad ar rhwymedigaethau'r cynllun	(84)	32	2,638	212
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(7,582)	(4,544)	777	(884)
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig	40,721	(31,732)	(27,755)	(28,993)
Asedau'r cynllun	41,094	37,545	31,68	30,493
Gwarged	373	5,813	3,930	1,500



Enillion asedau :

Enillion asedau	2020	2019	2018	2017
Swm £'000	2,450	4,670	(2,570)	2,195
% o asedau'r cynllun	6.0%	12.4%	-8.7%	7.2%

Enillion profiad rhwymedigaethau:

Enillion profiad rhwymedigaethau	2020	2019	2018	2017
Swm £'000	(84)	32	2,638	212
% o rwymedigaethau'r cynllun	-0.2%	0.1%	9.5%	0.7%

Tybiwyd bod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn wedi eu heithrio o asedau lle mae'r blwydd-daliadau'n cyfateb i'r rhwymedigaethau.

Mae pawb ar bensiwn yn derbyn cynnydd sicr o 3% y flwyddyn o dan delerau'r cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Mae gwasanaeth ar ôl 6 Ebrill 1997 yn cael ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Mae unrhyw iawndal pellach am y cynnydd mewn costau byw'n cael ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2020 y cyfraniad premiwm blynyddol oedd £1,296,879 (2019: £1,357,021). Roedd cyfraniad o £895,488 (2019: £777,671) wedi'i gynnwys yn y premiwm blynyddol ar gyfer trefniadau pensiwn y cyfraniadau diffiniedig ac ymddiriedolaeth meistr. Roedd y cynllun mewn gwarged ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r cynllun wedi'i gyfansoddi fel ymddiriedolaeth ac yn gyfreithiol ac ariannol ar wahân i'r cyflogwr. Mae gan yr ymddiriedolwyr gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymddiriedolaeth a ddisgrifir yng ngweithred a rheolau'r ymddiriedolaeth. Yn fyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am:

- weinyddu a rheoli'r cynllun at ddibenion Deddf Cyllid 2004
- penodi neu ddiswyddo actiwari at ddibenion y cynllun, fel y gwêl yr ymddiriedolwyr yn briodol ac addas
- penodi neu ddiswyddo archwilydd at ddibenion, ac yn unol â, Deddf Pensiynau 1995
- sicrhau bod datganiadau ariannol a archwiliwyd, ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun, ar gael i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a phartion penodol eraill
- sicrhau bod gwybodaeth benodol arall am y cynllun ar gael ar ffurf adroddiad blynyddol a pharatoi a chynnal datganiad ysgrifenedig o'r egwyddorion buddsoddi
- cytuno gyda'r GDC ynghylch swm ac amseriad cyfraniadau'r aelodau a'r GDC a sicrhau eu bod yn cael eu talu.



Mae'r cynllun, fel y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig eraill, yn wynebu nifer o risgiau gan gynnwys:

- y risg na fydd yr enillion ar yr asedau, o fuddsoddi, yn ddigon yn y dyfodol i ateb yr amcan ariannol
- y risg y gallai chwyddiant fod yn wahanol i'r hyn a dybiwyd
- y risg na fydd gostyngiad tebyg yng ngwerth y rhwymedigaethau os bydd gostyngiad yng ngwerth yr asedau, gan felly leihau lefel gyllido'r cynllun
- y risg y bydd newidiadau annisgwyl mewn marwolaethau yn y dyfodol, neu ffactorau eraill, yn cynyddu cost y buddion
- y risg y gallai'r Cyngor fethu talu cyfraniadau neu wneud iawn am ddiffygion ariannol yn y dyfodol
- y risg sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd y gallai (aelodau neu eraill) arfer opsiynau yn erbyn y cynllun
- y risg o newidiadau deddfwriaethol anffafriol.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

Oherwydd y risgiau uchod, gallai unrhyw brofiad anffafriol o ganlyniad iddynt olygu y bydd angen gwneud cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol.

Byddai union lefel y cyfraniadau a thros ba gyfnod y byddent yn cael eu gwasgaru'n dibynnu ar drafodaethau rhwng y Cyngor ac ymddiriedolwyr y cynllun, fel arfer yn dilyn prisiad tair-blynyddol.

Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar asesiad o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2020. Cyfrifwyd yr ystyriaethau sensitifrwydd gan ddefnyddio'r un fethodoleg.

Mae'r rhain wedi'u seilio ar ganlyniadau rhagarweiniol y prisiad actiwaraid tair-blynyddol ffurfiol ar 1 Ebrill 2018, wedi eu rhagamcangyfrif drwy ganiatáu ar gyfer cronni buddion, yr enillion disgwyliedig o fuddsoddi, cyfraniadau gwirioneddol a llifoedd arian, a chwtogi'r cynllun, ac maent wedi'u haddasu i ganiatáu ar gyfer y tybiaethau IAS 19 a ddisgrifir uchod.

Amcangyfrif felly yw'r canlyniadau a'r ystyriaethau sensitifrwydd.

Pe cyfrifwyd rhwymedigaethau ac ystyriaethau sensitifrwydd ar 31 Rhagfyr 2020 ar sail yr union ddata aelodaeth ar y dyddiad hwnnw, gallai'r canlyniadau fod yn wahanol. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaeth arwyddocaol.

Rhoddir mwy o wybodaeth am gynlluniau pensiwn y Cyngor yn yr [Adroddiad Taliadau](#) ar dudalen 44.



17. Ymrwymïadau o dan brydlesi

Llifoedd arian cytundebol di-ddisgownt

	2020	2019
	£'000	£'000
Tir ac adeiladau		
Llai na blwyddyn	273	273
Un i bum mlynedd	2,486	2,022
Mwy na phum mlynedd	5,912	7,073
Cyfanswm rhwymedigaethau prydles di-ddisgownt sail ar 31 Rhagfyr	8,671	9,368
Rhwymedigaethau prydles wedi'u cynnwys yn y datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Rhagfyr	6,669	6,698
Cyfredol	273	273
Anghyfredol	6,396	6,425

Symiau wedi'u cydnabod yn y datganiad incwm:

	2020	2019
	£'000	£'000
Llog ar rhwymedigaethau prydles	243	244

Symiau wedi'u cydnabod yn y datganiad llifoedd arian

	2020	2019
	£'000	£'000
Talu rhwymedigaethau prydles	580	118

Datgelir costau'r swm cario ymlaen, ychwanegiadau a dibrisiant sy'n gysylltiedig ag asedau hawl defnyddio yn nodyn 8, a datgelir y costau llog sy'n deillio o'r rhwymedigaethau prydles yn nodyn 6 y cyfrifon hyn.

Rhoddir mwy o wybodaeth am brydlesi yn nodyn 1.10 y cyfrifon hyn.



18. Ymrwymïadau cyfalaf

Nid oes gan y GDC unrhyw ymrwymïadau cyfalaf cytundebol na chawsant eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn ar 31 Rhagfyr 2020 (2019: dim).

19. Trafodion partïon cysylltiedig

Nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020, ac eithrio'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i aelodau'r Cyngor fel y datgelir yn nodyn 5 y cyfrifon. Rhoddir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor yn yr [adroddiad taliadau](#) cydnabyddiaeth ar dudalen 44. (2019: dim, ac eithrio'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i aelodau'r Cyngor fel y datgelir yn nodyn 5 y cyfrifon).

20. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oes gan y GDC unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Rhagfyr 2020 (2019: dim).

21. Digwyddïadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 24 Mawrth 2021, ar ôl ymgynghori ag aelodau yr effeithir arnynt, penderfynodd y Cyngor gau'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig i gronni yn y dyfodol o 31 Mawrth 2021. Rydym wedi cadarnhau gydag Actiwari'r Cynllun nad yw'r penderfyniad hwn yn cael unrhyw effaith ar yr atebolrwydd cyfrifyddu ar 31 Rhagfyr 2020 yn sgil cadw cyswllt cyflog y cynllun. Mewn blynyddoedd i ddod, ni fydd unrhyw warged ar y cynllun yn cael ei gydnabod fel na ellir ei wrthbwysu yn erbyn costau gwasanaeth yn y dyfodol.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr a Chofrestrydd) y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddïadau ar ôl y dyddiad hwn.



12. Cynghorwyr

Bancwyr

Lloyds Banking Group
Corporate Markets
33 Old Broad Street
Llundain

EC2N 1HZ

National Westminster Bank PLC
7th Floor
280 Bishopsgate
Llundain
EC2M 4RB

Buddsoddiadau

Smith & Williamson Investment Services
Limited
25 Moorgate
Llundain
EC2R 6AY

Cyfreithiol

Capsticks Solicitors LLP
St George's House East
1 St George's Road
Wimbledon
Llundain
SW19 4DR

Kingsley Napley LLP
Knights Quarter
14 St John's Lane
Llundain
EC1M 4AJ

Blake Morgan LLP
6 New Street Square
Llundain
EC4A 3DJ

Mills and Reeve LLP
Botanic House
100 Hills Road
Caergrawnt
CB2 1PH

Archwilwyr Allanol

Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Archwilwyr Mewnol
Mazars LLP
Tower Bridge House
St Katherine's Way
Llundain
E1W 1DD

Actiwari a'r Cynllun Pensiwn
Lane, Clark and Peacock LLP
95 Wigmore Street
Llundain
W1U 1DQ



13. Atodiad

a) Dyfarniad ar y Cyfrifon

Y Dyfarniad ar y Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor o dan adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r Arglwyddi'n dyfarnu fel a ganlyn wrth arfer eu pwerau o dan adran 2C(1) o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae'r dyfarniad hwn mewn grym o 16 Mai 2016 ymlaen:

Dehongliad

Yn y dyfarniad hwn –

Mae "y cyfrifon" yn golygu'r datganiad cyfrifon y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w baratoi o dan adran 2C(1)(b) o Ddeddf Deintyddion 1984.

Mae "y Cyngor" yn golygu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae "yr FReM" yn golygu'r argraffiad o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn galendr berthnasol.

Dyfarniad

Rhaid i'r Cyngor baratoi cyfrifon am bob blwyddyn galendr. Wrth baratoi ei gyfrifon dylai'r GDC ystyried datgeliadau ac egwyddorion cyfrifyddu'r FReM.

Rhaid paratoi'r cyfrifon er mwyn:

- Rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn ac o incwm a gwariant, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, ac o lif arian y GDC am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben
- Datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na wariwyd ar y pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu

Bydd y dyfarniad hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

Mae'r Dyfarniad ar y Cyfrifon a wnaed ar 22 Rhagfyr 2015 yn cael ei ddirymu drwy hyn.



ISBN 978-1-5286-2673-6

CCS0621739042 07/21

General Dental Council



Gwiriwch fod eich gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru: www.gdc-uk.org

Rydym eisiau sicrhau bod ein holl wasanaethau ar gael i bawb.

Os hoffech gopi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft mewn print bras neu ar dâp sain), cofiwch gysylltu â ni.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL

37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ

020 7167 6000

information@gdc-uk.org

www.gdc-uk.org